# Seren Hafren

*Papur Bro Dyffryn Hafren*

Rhifyn 406 MAI 2020 60c

Y Seren nesaf: Cyfraniadau: Mai 20 Papur Allan: Mehefin 1af


## DALIWCH ATI BOBL
## FE FYDD DIWEDD I HYN.
## Y CWESTIWN YDY PRYD?



YR ENFYS
Pwy fu'n plygu bwa'r enfys
Rhwng y cawodydd glaw?
Mae un pen yn llyn y felin,
A'r llall yn rhywle draw.

Pwy fu'n peintio'r lliwiau arno?
Y seith liw hardd eu tras:
Coch, melyn, piws, melyngoch
Gwyrdd, indigo a glas.

Ie maen nhw i'w gweld ym mhobman y dyddiau hyn. Arwydd o gefnogaeth i'n gweithwyr diflino yn GIG/NHS drwy Brydain gyfan. Mae ein diolch yn ddilys a thwym-galon, ac mae'r nifer sydd yn dod allan i'w stepen drws neu i ffenest y llofft i glapio yn dangos arwydd arall o gefnogaeth a gwerthfawrogiad y boblogaeth i gyd. Gwelwyd y camerau teledu yng Nghaersws wythnos gyntaf Ebrill yn ffilmio trigolion Llys Rhufain allan yn clapio. Gwelwn rhai lluniau ar Dudalen 30 o'r rhifyn hwn. Dangoswyd y clip ar Newyddion S4C ac ar raglen Wales Today ar BBC1.

## Myfyrdod y Mis

Daeth haul eto ar fryn!

Gwaetha'r modd bu'r Pasg eleni yn un digon diflas i ni ymhlith yr holl ddioddef o'n cwmpas, a'r newidiadau cymdeithasol mawr. Rydym ni oll yn dyheu am ddatrysiad buan i'r sefyllfa ryngwladol bresennol.

Yn ein gwlad ninnau collwyd hefyd yr oedfaon blynyddol sydd gennym i gofio'r gobaith Cristnogol, sef atgyfodiad Iesu Grist. Er gwaethaf hyn y mae'r ffaith hanesyddol honno yn parhau i gynnig goleuni disglair i'r Cristion yn nhywyllwch ein dydd - yn union fel i'r Cristnogion cyntaf.

Dewch i ni sylwi ar y gymhariaeth. Am rai dyddiau ar ôl y croeshoeliad bu'r disgyblion yn galaru. Roedd yr Iesu wedi marw, a phopeth yn ymddangos ar chwâl.

Bu'n dweud wrthynt ei fod wedi dod i'r byd i achub ei bobl rhag eu pechod a rhag marwolaeth. Felly beth roeddent i gredu ar ôl gweld y croeshoeliad, a'r Iesu ei hun yn y bedd?

Roedd hi'n ymddangos i'r disgyblion eu bod wedi colli'r 'newyddion da o lawenydd mawr,' yn ogystal â'u cyfaill.

Ond beth ddigwyddodd wedyn? Ydych chi'n cofio profiad Mair Magdalen? Daeth hi'n gynnar at y bedd fore Sul, a hi eto'n dywyll. Safodd oddi allan, yn wylo. Doedd gweld y bedd gwag yn ddim cysur chwaith a dal i grio a wnaeth. Ei hesboniad? "Am ddwyn ohonynt hwy fy Arglwydd i ymaith, ac nas gwn pa le y dodasant ef."

Dyma oedd y dehongliad rhesymol wedi'r cyfan! Ond roedd hi'n anghywir. Oherwydd yn y cyfamser, roedd yr Iesu atgyfodedig wedi dod tuag ati, a Mair heb ei adnabod.

 hithau'n dal mewn galar, llefarodd Iesu un gair wrthi. "Mair," meddai. A gyda'r gair hwnnw, aeth ei gofidiau i gyd yn angof llwyr. Roedd Iesu yn fyw, a marwolaeth wedi'i drechu. Iesu yn wir oedd ei ffrind a'i phrynwr; pa raid oedd anobeithio? Daeth haul eto ar fryn.

Yn ein dyddiau dyrys, dysgwn wers gan Mair Magdalen. Y mae'r hwn a drechodd ein gelynion yn ein gwahodd, fel Mair, i godi ein golygon a'i adnabod ef

Parch Iestyn ap Hywel (Gweinidog Henaduriaeth Trefaldwyn)

Diolch yn fawr i'r Parch Iestyn ap Hywel am ei gyfraniad gwerthfawr. Gol.




Pos bach i chi mis yma. Dyfalwch enwau'r lleoedd isod. Maent i gyd yn Sir Drefaldwyn.

1. SCREWAS
2. BARRYILLMANN
3. GWNYRALLT
4. LONGLAWN
5. GONNTYRE
6. WELMABRI
7. ACORN
8. WESTRYFLEG
9. RAGTIDDLE
10. WEBAIR
11. CHROMED
12. SOLLINDALE
13. OLFORD
14. ELINFYNWYDD
15. STOWPENDER
16. MALLDANNI
17. ASHARPBEEF
18. FOANMAN
19. ERDYNWYDDE
20. LOCHPOTDONG

Atebion Mis nesaf!

Nawr faint o eiriau o dair llythyren neu fwy allwch greu allan o'r llythrennau yn

SIR DREFALDWYN

# TAIR CERDD I CHI MIS YMA

## MIS MAI

Mae aur ar lwyni'r eithin,
Ac arian ar y drain;
A'r coed fel gorseddogion
O dan eu mentyll cain.
A lle bu'r gaeaf unwaith
A thwrf drycinoedd blin,
Mae popeth yn adfywio
Ond mynwent a phren crin.

Daeth blodau'n ôl i'r gwrychoedd,
A'r grug i'r bannau llwm;
A deunod clir y gwcw
Sy'n seinio yn y cwm.
Mae'r adar bach bob bore
Â'u lleisiau pêr, di-drai
Yn moli yr Arlunydd
A greodd harddwch Mai.

J R Jones

## MAI
(Detholiad)

Gwn ei ddyfod, fis y mêl
Gyda'i firi yn yr helyg,
Gyda'i flodau fel y barrug -,
Gwyn fy myd bob tro y dêl.

Eistedd wnes tan brennau'r Glog,
Ar ddyfodiad y deheuwynt;
Edn glas ddisgynnodd arnynt
Gan barablu enw'r gog.

Ni rois gam ar lawr y wig
Heb fod clychau'r haf o tano
Fel diferion o ryw lasfro
Wedi disgyn rhwng y brig.

Eifion Wyn

# BRIALLEN SUL Y BLODAU

Un fechan, croeso, croeso
Ai ti yw'r unig un
I gofio Sul y Blodau
A deffro o dy hun?
Ni welais i un arall
Ar hyd y llwybr troed;
Briallen Sul y Blodau
Heb gymar yn y coed.

Un fechan, aros, aros
Yn hwy heb droi yn wyw;
Yr wyt rhy dlws i farw
Os wyt rhy wan i fyw;
Eleni oer yw Ebrill
Dy Ebrill cynta' 'rioed
Heb lesni yn yr awyr,
Heb lesni ar y coed.

Un fechan gwywaist, gwywaist
O hiraeth cyn y wawr;
Dy galon dyner dorraist,
A dyma'th ben ar lawr;
Mi daenaf fwswg drosot,
A gywliaf ar fy nhroed
Briallen Sul y Blodau
Yn farw yn y coed.

Eifion Wyn








## LLONGYFARCHIADAU

Wel mae Sue Hyland yn wirioneddol wedi "croesi'r bont".

Pan ar ei gwyliau yn Sir Benfro haf y llynedd, fe welodd hysbyseb am Eisteddfod Tŷ Ddewi. Ar ôl cyrraedd adref ac edrych trwy y cystadlaethau aeth ati i ysgrifennu pwt yn Adran y Cymry Cymraeg, NID Adran y Dysgwyr sylwch!.

Yna yn ddiweddar cafodd dipyn o newyddion da drwy'r post yn dweud ei bod wedi cael y drydedd wobr yn yr adran yma am ei gwaith.

Gwelwn hi yn y llun gyda'i thystysgrif ac anrheg o fag bach ffabrig o Felin Tregwynt. Testun ei gwaith oedd "Tywydd" ac fe ysgrifennodd am yr eira mawr a gafwyd yn Llidiartywaen dwy flynedd yn ôl.

Llongyfarchiadau mawr iddi ar y gamp arbennig hon.

Da iawn ti Sue. Gol.


Eisteddfod Tyddewi

Chwefror 28 2020

Enillydd

Gwobr draddodiadol yw'r bag hwn. Cyflwynid bagiau tebyg fel gwobrau mewn eisteddfodau 'slawer dydd.

*Dymuna Pwyllgor yr Eisteddfod ddiolch i Felin Wlan Tregwynt am y rhodd o'r defnydd ar gyfer creu'r bagiau.*




Sue gyda'i thystysgrif a'i bag bach sbesial!

A dyma ni y gwaith gafodd y wobr yn Sir Benfro

## DYDDIADUR Y BWYSTFIL O'R DWYRAIN

**Dydd Mercher 28 Chwefror**

Mae'r Bwystfil o'r Dwyrain ar y ffordd, meddan nhw, gobeithio bydd fy nillad isaf thermol Damart yn cyrraedd cyn y Bwystfil – mae hi'n ofnadwy o oer, minws 3º. Dan ni'n gorymdeithio o gwmpas y dre yfory efo Draig Goch enfawr i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Dim eira tan dydd Gwener plîs!

**Dydd Gŵyl Dewi Mawrth 1af**

Nefi wen! Dim gorymdaith heddiw. Popeth o dan flanced o eira, lluwchfeydd ar y dreif ac mae'r gwynt yn codi. Mentrais i allan yn gwisgo fy het Gennin Pedr rygbi i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi efo'r ffesantod yn yr ardd. Efallai mod i'n mynd yn wallgof...........

7.30yh – Hanner ffordd trwy coginio'r swper – CLIC! – wedyn tywyllwch – damia! Toriad pŵer. Dim popty nwy, felly dyna ddiwedd y bwyd. Dim dŵr chwaith – wneith ein twll turio ddim gweithio heb drydan. Aethon ni i'r gwely am 9 o'r gloch, yn llwgu ac yn oer. Dw i angen fy thermols!

Nodyn i fy hunan – cadwch ganhwyllau, matsis a thortsh (efo batri! ), rhywle hawdd i ffeindio yn y tywyllwch, prynwch stôf Primus a mwy o jin.

**Dydd Gwener 2 Mawrth**

Dim llawer o gwsg neithiwr, roedd y gwynt mor swnllyd yn udo trwy'r coed.Y bore 'ma mae gen i fagiau dan fy llygaid a mae fy nannedd wedi rhewi. Dim ond 5º yn ein stafell wely. Cysgodd Bryn mewn het wlanog neithiwr, roedd fel cysgu efo Compo. Beth nesa, tybed – welis? A bois bach – lluwchfeydd 5 troedfedd o daldra rŵan, mi fyddwn ni angen aradr eira i helpu ni allan. Roedd hi'n rhewllyd ym mhobman yn y tŷ. Dim gwres canolog o gwbl achos mi gaeth y ffliw

boeler ei gladdu o dan 6 troedfedd o eira. Diolch Bryn am fynd allan efo rhaw i drwsio'r problem. Tymheredd minws 7º. Mae Bryn yn ardderchog mewn argyfwng.

Newyddion da – mae gynnon ni drydan o'r diwedd.

Newyddion drwg – mae'r gwynt wedi rhwygo'r drws o'r sied goed a mae'r boncyffion wedi claddu o dan luwch enfawr. Aeth Bryn allan efo rhaw eto. Mae o'n werth y byd.

Newyddion gwaeth – Mae fy archeb Damart yn sownd yn yr eira mewn fan wen rhywle yng nghanolbarth Cymru a dim ond chwarter potel o jin yn y cwpwrdd.

<u>Dydd Sadwrn 3 Mawrth</u>

Mae pethau'n draed moch yma heddiw. Pam oedd y carped yn wlyb yn ein stafell wely? Mae'r tanc dŵr poeth yn gollwng, aarrgghh – rhywbeth i wneud efo'r peipiau tu allan. Roedd 'na llyn o ddŵr ar ben bocs fy ffrog briodas yn y cwpwrdd o dan y tanc.

Da iawn, Bryn, am fynd allan yn yr eira am y trydydd tro efo peiriant sychu gwallt i doddi y rhew....

Mae o'n fodel o ŵr a diolch byth mae o'n gwybod ei bethau. Tymheredd yn well --4º. Dw i ddim yn mynd i boeni am fy ffrog achos mae gen i ddwy arall yn rhywle, gŵr rhif 3 ydy Bryn. Y trydydd ond y gorau. Faswn i ddim hebddo fo am y byd. Statws jin – argyfyngus.

<u>Dydd Sul 4 Mawrth</u>

Mae pethau'n mynd o ddrwg i waeth. Deffron ni yn yr oriau mân y bore i'r sŵn o law pitran-patran ar y ffenest. Dim jyst ar y ffenest ond trwy'r ffenest a'r nenfwd. Dw i wedi cael llond bol rŵan a dw i ar ben fy nhennyn. Dw i'n hoffi rhaeadrau/arweddion dŵr, ond dim yn fy stafell wely. Allan i'r garej ar doriad gwawr aeth Bryn i chwilio am ysgol i drio trwsio'r to. Mae gynno fo gymaint o dalentau cudd ond roedd o'n crynu fel 'lurcher' wlyb. Dydy o ddim yn hoff iawn o uchderau o gwbl, ar ôl cwympo o'r to yn yr haf.

Mae'n wych i weld jetiau RAF Valley yn hedfan dros ein tŷ ni, ond dim pan dach chi'n trwsio simnai. Rhaid bod ni wedi bod yn ofnadwy o ddrwg mewn bywyd arall – does 'na ddim byd arall ar ôl i fynd o chwith – neu oes 'na?

Tymheredd – balmaidd minws 2º.

Wnei di byth gredu, ond prynhawn 'ma, ffrwydrodd y ffwrn a mae o'n rhy beryglus i'w ddefnyddio fo (yn ôl Bryn, a mae o'n dda efo pethau trydanol).

Ro'n i'n ymbalfalu trwy'r cypyrddau a'r rhewgell i ffeindio rhywbeth yn addas i goginio yn y popty ping (unrhyw syniad beth i'w greu efo dim ond bag o sbrowts wedi rhewi a letys llipa?) pan yn sydyn, o ben y to, mi weiddodd Bryn nerth ei ben "Edrycha! Ar y gorwel!" (allai fo weld y gorwel o ben y to)" Dw i'n gallu gweld yr aradr eira!!"

Daw haul ar fryn – diolch byth roedd cymorth yn dod i balu ni allan. Gobeithio bod nhw'n dod efo fy mharsel Damart a photel o jin.....................

gan Sue Hyland

> Gwych ynte?
> Llongyfarchiadau gwresog iddi
> Da iawn ti. Gol.



## CORNEL GARDDIO



### MIS MAI

Mae'r haf ar ei ffordd! Fel mae bylbiau'r gwanwyn yn darfod mae'r borderi yn dechrau tyfu o ddifri. Gallwch ddechrau plannu hadau yn syth i'r ardd ac o ganol y mis ymlaen gallwch blannu'r blodau blwyddol. [Er bod rhai o'n garddwyr hŷn wedi gweld barrug yn Ardudwy yn hwyr ym mis Mai.]
Gellir cymryd toriadau oddi ar goed meddal. Mi fydd angen torri'r lawnt yn rheolaidd rŵan.

### Tasgau

1. Gwyliwch rhag nosweithiau oer, barugog. Mi fydd angen amddiffyn planhigion nad ydyn nhw wedi arfer â bod allan.
2. Mae angen priddo'r tatws wrth iddyn nhw dyfu. Os oes rhai dros ben, mae'n hen bryd eu plannu.
3. Plannwch y blodau blwyddol yn ail hanner y mis.
4. Ystyriwch ddulliau o gasglu dŵr glaw ac ailgylchu dŵr. Mae dŵr glaw yn fwy bendithiol i blanhigion ac mae'n rhad!
5. Dylai'r hof fod yn brysur iawn y mis hwn. Mae'n talu ar ei ganfed i'w ddefnyddio'n aml.
6. Agorwch ddrws a ffenestri'r tŷ gwydr ar ddiwrnod cynnes.
7. Torrwch y lawnt bob wythnos.
8. Cyn i chi dorri gwrychoedd, archwiliwch nhw yn ofalus rhag ofn bod adar yn nythu ynddyn nhw.
9. Gallwch godi'r cennin Pedr a bylbiau eraill y gwanwyn - a rhannu clystyrau mawr ohonyn nhw.

Mae'r tymor plannu yn ei anterth. Gallwch barhau i blannu bron bob llysieuyn.

**Tatws:** Rydan ni wedi plannu'r tatws cynnar 'Rocket' a 'Swift' ac wedi dewis 'Estima', 'Cara' a 'Desiree' fel tatws diweddar. Plannwyd y 'Rocket' mewn mawn yn y tŷ gwydr ar Chwefror 21 a'u symud nhw wedyn i 14 o fwcedi mawr efo dwy daten ym mhob un.
Byddan nhw'n barod i'w bwyta erbyn i chi ddarllen y rhifyn hwn.



**Moron:** Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydan ni wedi arbrofi efo bob math o foron. Erbyn hyn tueddwn i gadw at 'Nantes'. Dydy o ddim yn foryn rhy fawr, does dim canol rhy fawr iddo, mae'r blas yn wych ac mae'n cadw'n dda.




**Nionod:** 'Stuttgarter' a 'Kelsae' yw'r dewis. Fe gadwodd rhain tan fis Ebrill eleni. Mae'r blas yn dda a dydyn nhw ddim yn tyfu'n rhy fawr.

**Ffa:** 'Aquadulce' blannwyd eleni.

**Pys:** Gallwch blannu pys cynnar unrhyw amser, hyd yn oed yn hwyr yn y tymor! Yr hen ffefrynnau sydd acw, sef 'Kelvedon Wonder' ac 'Onward'.

**Ffa Ffrengig:** Er mwyn gwneud y gorau o'r lle, rydan ni'n tyfu 'Cobra' sy'n dringo'n uchel.

**Cennin:** 'Musselburgh' yw'r dewis. Dydy hi ddim yn tyfu'n rhy fawr ond mae hi'n flasus. Mae hefyd yn cadw'n dda rhag unrhyw bla.



**Betys:** Mae 'Boltardy' yn ddiguro. Nid yw'n rhedeg i had yn hawdd. Rydan ni hefyd wedi plannu betys hir eleni - 'Cylindra'.

**Ffa Dringo:** 'Enorma' ddewiswyd eleni ond bu bron i ni fynd am 'Prizewinner'. Ffa hirion, blasus heb lawer o 'linyn'.

**Bresych:** Dwy hen ffefryn, 'Primo' a 'Greyhound' sydd acw; maen nhw'n ffefrynnau ers tro.



**Letys:** 'All the Year Round'


**Tomatos:** Cefais gasgliad amrywiol gan gyfaill y llynedd ac fe gafwyd cnwd ardderchog. Eleni mae o wedi rhoi 'Money Maker', 'Shirley', 'Ailsa Craig', 'Alicante' 'Gardener's Delight' [un fach goch], a 'Sungold' [un fach oren - mae'n felys iawn] i mi. Roedd ganddo fymryn dros ben ddiwedd yr wythnos diwethaf. Gair i gall!





## O’R EGLWYSI

**Mae’r gwasanaethau i gyd wedi eu gohirio ar hyn o bryd.**
**Gweddiwn i Dduw y daw pethau yn ôl yn normal yn o fuan.**



Mae gwasanaeth ar Radio Cymru bob bore dydd Sul am hanner awr wedi deg y bore. Tiwniwch fewn.
Mae nifer o’r egwlysi yn paratoi gwasanaethau ar lein hefyd.
Gwelais wasanaeth ar Facebook gan y Parchedig Nia Wyn Morris ddechrau’r mis. Mae’n bwriadu creu gwasanaeth bob Sul am 10 o’r gloch ar YouTube.
Mae gan y Eglwys Bresbyteraidd Cymru “Gwasanaeth” ar y ffôn bob wythnos – yng Nghymraeg neu Saesneg. Ffoniwch 02920 101 564 ... sydd ar gael unrhyw amser. Rhywbeth tua ugain munud o hyd ydyw.




## SWYDDOGION

**Cadeirydd:** John Evans,
Maesmawr, Caersws, SY17 5SB
01686 688 369 neu 07875916304

**Is-Gadeirydd:**
Nia Roberts, Gelli Aur, Sycamore Drive, Y Drenewydd.
01686 628234

**Trysorydd:** Haf Leonard,
8 Dolerw Park Drive, Y Drenewydd
SY16 2BA 01686 628197

**Ysgrifennydd:** Nelian Richards,
Ger y Parc, Dolerw Park Drive,
Y Drenewydd SY16 2BA
01686 627410
nelianrichards@gmail.com

**Teipyddes:** Janis Lewis,
14 Poplar Road, Y Drenewydd
SY16 2QG

**Prif Ddosbarthwr:** Eirian Williams,
Eirwynle, Carno 01686 420364

**Trefnydd Hysbysebion:**
Haf Leonard a Delma Thomas
(628 197) (688 538)

**Tanysgrifiadau drwy’r Post:**
Alwena Gentle, Manora, Ffordd Milford, Y Drenewydd SY16 2BD
01686 626044
alwena.gentle@btinternet.com

**Trefnyddion Clwb y Seren:**
Janis Lewis a Delma Thomas
(688 538)

**Golygyddion:**
John Evans
01686 688369
john@midwalesarts.org.uk
Marlis Jones
01686 688679
marlisjones@btinternet.com
Delma Thomas
01686 688538
delmac.thomas@hotmail.com

**Tanysgrifiadau drwy’r post £17.00**

# BRIWSION

gan Marlis Jones

**RHYBUDD**

Rydan i gyd yn cael ein rhybuddio ddigon i gadw'n gymdeithasol bell oddi wrth ein gilydd, i olchi ein dwylo'n aml a glanhau arwynebeddau sy'n cael eu cyffwrdd, a da o beth yw hynny yn wyneb y feirws dieflig yma sydd mor fygythiol.
Ond mae yna beryglon eraill hefyd yn ein bygwth. Peryglon sy'n treiddio i'n bywydau drwy'r ffôn yn y cartref y ffôn symudol a'n cyfrifiaduron. Sôn ydw i am y Sgammers. Maen nhw mor glyfar, ac mor benderfynnol. Maen nhw hefyd yn rhoi pwysedd arnom i wneud rhywbeth y munud hwnnw neu fe fyddwn ar ein colled. Mae'r brys yma yn un o'r arwyddion sy'n dangos i ni mai sgam sydd yna.

Ychydig ddyddiau yn ôl cefais ebost oedd yn edrych yn swyddogol ac wedi ei arwyddo yn union fel y drwydded deledu, yn dweud fod yna rywbeth wedi mynd o chwith efo fy nebit uniongyrchol, ac y byddai fy nhrwydded deledu'n dod i ben am hanner nos y noson honno. Roeddwn yn amau hwn yn syth
Yn un peth rydan ein dau dros 75 ac yn cael ein trwydded deledu am ddim (ar hyn o bryd) a diolch am hynny.

Yn ail yn enw Arfon mae ein trwydded.
Yn drydydd ym mis Gorffennaf mae ein trwydded yn darfod.
Jest i fod yn sicr fod popeth yn iawn gyda'n trwydded, a hefyd i wneud yn siŵr nad oeddwn yn talu am dani hefyd, fe ffoniais y swyddfa drwyddedu. Roedd y ferch ar ben arall y ffôn yn garedig ac fe gadarnhaodd fod ein trwydded yn iawn. Dywedodd hefyd mai ar ddiwedd mis mae'r trwyddedau'n dod i ben – byth ar ganol mis. Felly dyna gliw arall i ddangos sgam.

Bore heddiw dyma ebost yn cyrraedd yn ymddangos ei fod gan BT. Roedd yn rhaid i mi 'login' yn syth i dderbyn newidiadau anorfod neu fe fyddwn yn coll fy nghysylltiad. Roedd y llythyr yn edrych yn swyddogol ac yn erfyn arna i i weithredu'n syth.

Gan ei fod mor daer i mi wneud rhywbeth y munud hwnnw roedddwn yn ei amau.

Cysylltais â BT ac wrth gwrs sgam oedd y llythyr. Fydden nhw byth yn gwneud unrhyw newidiadau heb roi digon o rybudd i'w cwsmeriaid. Felly dileu'r neges oedd y peth iawn i'w wneud.

Dw i hefyd wedi cael neges ar y ffôn yn dweud fod arian wedi cael ei dynnu oddi ar fy nghyfrif ar y cerdyn credyd. Rhoi'r ffôn i lawr ar y rheiny yn syth. Maen nhw am i mi roi rhif fy nghyfrif iddynt 'Gael talu'r arian yn ôl'! Sgersli bilif! Pe taen nhw'n cael y rhif cymryd arian allan fydden nhw'n ei wneud.

Maen nhw'n daer eu bod yn iawn ac yn cynnig i chi ffonio'r banc i gadarnhau hynny PEIDIWCH. Maen nhw'n gallu aros ar y ffôn a chymryd arnyn mai'r banc ydyn nhw. Os ydych am ffonio'r banc gwnewch o deliffôn sydd â rhif gwahanol, neu arhoswch am tua hanner awr neu hwy cyn gwneud.

Ydyn maen nhw'n glyfar ac mae'n hawdd iawn disgyn i'r trap, fe wnes i hynny ychydig flynyddoedd yn ôl a dw i wedi dysgu fy ngwers. Ond mae fy enw ganddynt fel 'ffŵl hawdd i'w thwyllo' ac maen nhw'n dal ati i drio.

Byddwch yn wyliadwrus.

# TUDALEN Y PLANT

Faint o’r geiriau isod chi’n gallu ffeindio yn y  grid geiriau.
Mae nhw gyd yn ymwneud ac adeiladau

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| L | X | NG | M | Ê | Ô | RH | O | O | Ê | U | Î | Î | H | S |
| D | O | PH | M | S | Ê | Î | T | E | B | A | N | C | Â | A |
| N | F | G | W | U | J | G | H | T | Î | I | H | R | J | V |
| N | H | Î | S | X | Y | M | R | Î | S | T | N | Ô | DD | G |
| Ô | Q | O | F | Y | O | S | T | P | Y | A | V | F | O | Î |
| T | W | Ô | L | J | T | Q | Ê | T | W | L | U | R | D | E |
| S | I | J | Ê | A | Î | O | E | Ê | N | FF | X | Ô | Î | DD |
| W | O | H | F | A | NG | R | I | J | F | N | A | W | Y | Î |
| CH | Î | S | L | Î | A | Y | E | F | Â | H | Ê | A | S | M |
| Ê | Ô | Ê | FF | S | Y | Â | B | CH | O | Â | H | F | B | L |
| D | J | W | S | T | Î | Â | V | Ê | U | N | Â | S | Y | E |
| Ô | V | I | S | D | B | N | H | Ô | J | B | LL | H | T | P |
| M | O | E | F | Ê | Â | Ê | Q | F | T | I | Î | W | Y | A |
| P | W | C | A | S | T | E | LL | CH | Î | E | Â | G | P | C |
| G | C | Â | L | Â | D | B | S | E | G | L | W | Y | S | V |



| | | | |
|---|---|---|---|
| YSGOL | CAPEL | EGLWYS | SIOP |
| PWLL NOFIO | FFLATIAU | CASTELL | BANC |
| YSBYTY | BYNGALO | TŶ TERAS | GWESTY |





# BETH YW DYFODOL “MALDWYN” ?



Yng nghanol y trybini presennol, gyda’r feirws hunllefus sy’n ymestyn ei chrafangau i bob rhan o’r wlad, mae’n anodd i weld a chlywed am - heb sôn am drafod, unrhyw faterion eraill sy’n debyg o ddylanwadu ar ein bywydau y tu hwnt i’r cyfnod hwn. Ond mae’n bwysig iawn i ni gadw llygad ar bethau eraill a all gael effaith arnom ni yn y rhan yma o Gymru.

Yn ddiweddar daeth y newyddion y bydd gwleidyddion San Steffan yn diddymu sedd wleidyddol Maldwyn, gan rannu gwahanol ardaloedd o’r sir rhwng etholaethau gwahanol.

A dyna fydd diwedd ar y sedd Seneddol a fu mewn bodolaeth ers 1542! Ie, tua pum can mlynedd. Digon distaw fu’r ymateb i’r newyddion hyn, sydd efallai yn adlewyrchu’r dywediad “Mwynder Maldwyn” ar ei waethaf. Hynny yw, a yw ein ‘mwynder’ honedig yn golygu y gall gwleidyddion wneud beth a fynon nhw a’n hen Sir hanesyddol? Y Sir a roddodd y mawrion Clement Davies ac Emlyn Hooson i’r byd gwleidyddol.

Dechreuais fy ngyrfa yn y byd addysg o dan hen bwyllgor addysg Sir Drefaldwyn, cyn iddo gael ei lyncu gan Bowys yn 1974. Ar y pryd roedd y byd addysgiadol yn yr hen Sir yn cael ei edmygu trwy Gymru. Er yn uned fechan, roedd yn cyflawni campweithiau aruthrol ac yn flaenllaw o ran rhoi cyfleoedd i bobl ifanc ym myd y celfyddydau a chwaraeon yn ogystal â’r byd academaidd. Penodwyd arbenigwyr ym myd drama, cerdd a chwaraeon fel ymgynghorwyr i gefnogi ysgolion.

Roedd gwasanaeth cerdd y sir yn enwog am roi cyfleoedd i bobl ymuno â’r gerddorfa ieuenctid, cerddorfa o fri a fu’n diddanu cynulleidfaoedd trwy Gymru ac yn rhyngwladol. Yn sicr, roedd enw Sir Drefaldwyn yn golygu rhagoriaeth yn y dyddiau hynny. A dyma hoelen arall yn arch yr hen Faldwyn. Ond arhoswch, daeth newyddion arall yn ddiweddar hefyd, am hoelen arall yn arch yr hen Sir, a hynny o fan hollol annisgwyl.

Mae’n debyg bod Yr Urdd wedi penderfynnu na fydd gan Maldwyn Swyddog Datblygu yn dilyn adrefnu o fewn y mudiad. Erbyn hyn mae rhywun yn dod i feddwl mai gair hyll yw ‘adrefnu’. Os ydw i wedi deall yn iawn, bydd Maldwyn yn rhannu Swyddogion gyda sir arall a byddwn yn colli nid yn unig ein Swyddog Datblygu ond hefyd ein Swyddfa yn Y Drenewydd. Nid o Lundain y daw yr ymosodiad y tro hwn, ond o Gaerdydd!

Ar nodyn hollol gwahanol, gallaf eich sicrhau y bydd Ysgol a Chwmni Theatr **Maldwyn** yn dal i arddel yr enw, a hynny gyda chryn falchder. Yn 2021 bydd Cwmni Theatr Maldwyn yn dathlu 40 mlynedd ers ei sefydlu ar gyfer perfformiad o’r **Mab Darogan** yn Eisteddfod Genedlaethol Machynlleth yn 1981. Ein bwriad, os byddwn yn ôl i unrhyw fath o normalrwydd erbyn hynny, yw i greu cynhyrchiad Newydd o’r **Mab Darogan** a theithio’r sioe i wahanol rannau o

(Trosodd)


Gymru, gan gadw enw **Maldwyn** ar wefusau ein Cyd-Gymry.

Nodwch dyddiad cychwyn y daith – Nos Sadwrn 16 Hydref 2021 yn Theatr Hafren. Yn ystod cyfnod dirdynnol fel hyn, mae'n bwysig i ni gael rhywbeth i edrych ymlaen ato.

O'r **Byncar** yn nwfn yn naear Maldwyn, cadwch yn saff a chadwch y ffydd.

Penri Roberts

Diolch i Penri Roberts am y cyfraniad uchod.
Gol.




## COLOFN Y DYSGWYR
(Parhad)

### CLWB HWB

Mae Dysgu Cymraeg a Menter Maldwyn di cyd drefnu Clwb Hwb yn yr ardal i gadw'r Dysgwyr mewn cy-sylltiad gyda'r Iaith pan nad ydynt yn medru mynychu dosbarthiadau. Mae un Clwb Hwb bob Bore Mawrth rhwng 11-12 y bore ac fe fydd Clwb Hwb arall bob yn ail Nos Iau yn dechrau yn fuan. I ymuno â Clwb Hwb tiwniwch fewn drwy Zoom. Maent wedi trefnu efo Iolo Williams i wneud fidio taith natur yr ardd gyda sesiwn fyw i ateb cwetiynau'n fuan . Edrychwch allan.

# Y GEGIN FACH




## TATWS A CHENNIN MEWN CAWS PÔB



## CYNHWYSION

225g (8 owns) tatws bach

225g (8 owns) cennin wedi sleisio

15g (1/2 owns) margarine

15g (1/2 owns) blawd plaen

1 x 5ml (llwy de) powdr mwstard

150ml (1/4 peint) llaeth

1 x 2.5ml (4 owns) caws Cheddar cryf wedi gratio

1 melynwy
Saws Worcester

Halen a Phupur

## DULL

Rhowch y tatws, cennin a dau lond llwy fwrdd o ddŵr ac ychydig o halen mewn dysgl addas ar gyfer microdon.
Gorchuddiwch a choginio ar UCHEL am 7-8 munud nes bod y llysiau wedi eu coginio. Gadewch iddynt oeri.

Curwch y margarin, blawd a mwstard efo'i gilydd ac yna'n raddol, ychwanegu'r llaeth a'r saws Worcester a'i guro mewn.

Coginiwch ar UCHEL am tua 2 funud gan ei guro bob rhyw 30 eiliad.

Curwch y melynwy a'r caws i mewn.

Tywalltwch y dŵr oddi wrth y llysiau a'u rhoi mewn dysgl, taenwch y saws drostynt ac yna eu rhoi dan gril poeth neu bopty nes bod yn frown ar yr wyneb.



## TEITHIO

Er mai merch ffarm ydw i, does gen i ddim llawer i'w ddweud wrth na chath na chi ond rhowch i mi gyfle i deithio i chwilio am fywyd gwyllt, yna mae fy chwilfrydedd ar dân!

Dechreuodd yr ysfa'n ôl yn 1988, pan aethom fel teulu ar saffari i Genia gan geisio dod o hyd i'r Pump Mawr, y 'Big Five' yr eliffant, rheino, llew, llewpart a'r byffalo. Dros nifer o flynyddoedd a theithio saith gwlad yn yr Affrig, rydym wedi rhyfeddu atynt ac yn gwerthfawrogi'r hyn maent yn ei wneud i'w gwarchod.

Daeth yr awydd ymhen rhai blynyddoedd i ganolbwyntio ar greadur brodorol y wlad honno. Aeth Ioan, y gŵr a minne i Chile i chwilio am y piwma. Creadur swil ydi o ac un a oedd yn profi pa mor amyneddgar oeddem i fod yn eistedd am oriau yn aros iddo ddod i'r golwg.

Dwi'n hoff iawn o'r gorila ac i Iwganda aethom i chwilio amdano. Clamp o ddyn oedd y 'silver back' yn gwarchod eu deulu fel y dylai pob gŵr ei wneud!



Un o'r anifeiliad harddaf a welais erioed oedd y teigr yn yr India. Mae angen amynedd i eistedd am oriau mewn cerbyd ond dyna chi wefr gefais pan gerddodd un o'm blaen. Roeddwn yno efo fy nghamera ond yn rhy araf i dynnu llun wrth ryfeddu at ei farciau.

Bum yn swnian digon fy mod am weld yr orangiwtan, felly Borneo oedd y wlad am hynny. Pan gyrhaeddom, aethom i'w gweld mewn gwarchodfa ble roeddynt yn eu trin os oeddynt wedi dioddef salwch neu wedi bod mewn sgarmes. Ond teithio o gwmpas i'w gweld yn eu cynefin yn swatio ynghanol brigau'r coed roddodd y pleser mwya' i mi.

Mis Gorffennaf 2019, daeth mwy o gyffro pan aethom i wersylla yn Alasca i chwilio am yr arth frown, y 'grizzly bear".
Roedd hedfan i mewn i'r gwersyll a glanio ar y traeth yn antur ynddo'i hun ond dyna wefr oedd gweld yr arth gynta'n ymlwybro ar hyd y traeth. Er eu bod yn greaduriaid 'cwtchi', roeddem yn falch o'r ffens drydan oedd o amgylch y gwersyll –rhag ofn!

Buom yn ddigon ffodus i weld dwsin o eirth dros gyfnod o dridiau a'r rhai bach yn ddigon o ryfeddod – mor chwareus

Nid yr eirth yn unig fydd yn aros yn y côf am Alasca ond yr effaith mae newid hinsawdd yn ei gael ar y wlad. Cawsom gyfle i ymweld â Pharc Cenedlaethol 'Kenai Fjords.' Cerdded tuag at y rhewlif 'Exit' oedd y cam cyntaf a gweld â'm llygaid fy hun yr effaith mae newid hinsawdd wedi'i gael dros gyfnod o flynyddoedd a'r rhewlif yn encilio wedi'i farcio -1926-2005-2010.




Am weddill y dydd, cawsom daith ar long i deithio'n agosach at nifer o rewlifiau. Golygfeydd hyfryd a'r haul yn taflu golau ar y rhew i greu lliwiau sgleiniog glas.
Y darlun olaf sydd gennyf yw talp o rew rhydd yn llithro dros wyneb y dŵr a dau forlo bach yn torheulo arno – neu'n dianc?

gan Marian Wilson


Diolch Marian am yr hanes cyffrous uchod. Diddorol iawn.




**HYSBYSEBWCH YN Y SEREN**




## LLONGYFARCHIADAU EMILY CHAPPELL




Emily Chappell

Bu yr awdur a'r beiciwr o fri Emily Chappell yn un o'r siaradwyr gwadd yng Ngŵyl Gyrfaoedd Powys eleni yn Llanelwedd.

Yn gyn-ddisgybl o Ysgol Gynradd Caersws ac Ysgol Uwchradd Llanidloes, Emily oedd y ferch gyflymaf i feicio ar draws Ewrop yn y Ras Trawsgyfandir 2016 ac mae hefyd wedi beicio i Siapan o Gymru. Mae Emily newydd gyhoeddi ei hail lyfr 'Where there's a will'.

Bu yn trafod y ffordd y mae hi wedi creu gyrfa fel awdur a beiciwr gyda Tim Davies, beiciwr o Bowys sydd wedi cynrychioli Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad. Bu Emily hefyd yn gweithio am gyfnod fel negesydd ar gefn beic yn Llundain. A hyn oedd testun ei llyfr cyntaf 'What Goes Around'.



Dyma le da i feicio!

# CARNO

Diolch i'r unigolion sy'n danfon newyddion i ni o Garno

## SIOE FFASIWN

Cynhaliwyd Sioe Ffasiwn yn defnyddio dillad Julia Dorell o siop ddillad 7evern yn Y Drenewydd. Roedd y sioe wedi cael ei threfnu gan Bwyllgor Sioe Carno a Rhian Powell. Diolch yn fawr i bob un fu'n modeli, i siop trîn gwallt o Gaersws, i Jane Jerman a Tracy Jones a wnaeth weini lluniaeth arbennig ac i Rhian oedd wedi trefnu y raffl mor dda. Diolch hefyd i bawb wnaeth droi fyny ar y noson i fwynhau y Sioe.



Yn y llun gwelwn Alan Humphreys, Trysorydd Sioe Carno ynghyd â Rhian a'i rhieni Eleri ac Alun Wigley yn cyflwyno siec o £500 i Debbie Evans un o nyrsys Parkinsons sy'n gweithio ac yn cynrychioli Powys Parkinsons UK.



Jane Jerman a Tracy Jones wrth y drws

(Mwy o Garno ar Dudalen 18)

# Y DRENEWYDD

Diolch i'r unigolion sy'n danfon newyddion o'r Drenewydd.
Rydym yn dal i chwilio am berson i fod yng ngofal Colofn y dref

## CÔR MEIBION Y DRENEWYDD A'R CYLCH

Fel popeth arall yn ddiweddar, mae gweithgareddau'r côr wedi dod i stop am y tro – dim ymarferiadau ar nos Fawrth, dim cyngherddau a dim priodasau chwaith, y cwbl wedi eu gohirio am rwan.

Roedd cyngerdd blynyddol y côr i fod yn yr Hafren ym Mis Ebrill efo Shân Cothi a Rhodri Prys Jones – bu raid gohirio. Y newyddion da yw fod y cyngerdd wedi ei ail drefnu; bydd Shân a Rhodri yn ymuno a'r côr yn yr Hafren ar nos Sadwrn, Ebrill 17, 2021 - ie y flwyddyn nesaf, 2021! Os oeddech wedi prynu tocynnau ar gyfer y cyngerdd, gallwch eu defnyddio ar gyfer y dyddiad newydd. Unrhyw broblem, cysylltwch a Theatr Hafren.

Hefyd wedi ei ohirio mae penwythnos yn recordio cryno ddisg, ond gobeithir ail drefnu hynny hefyd. Mae taith i wlad Belg wedi ei threfnu ar gyfer diwedd Gorffennaf eleni; mae ansicrwydd os bydd y daith ymlaen a felly hwyrach bydd raid gohirio tan haf 2021.

Dechrau Mis Mawrth eleni bu aelodau'r côr yng Ngwesty Maesmawr, Caersws i fwynhau cinio hyfryd, a daeth y grŵp lleol 'Back in' Time' i ddiddanu pawb. Hwyrach mai hwn fydd digwyddiad olaf y côr am eleni – pwy a ŵyr, ond gobeithiwn y bydd pethau'n gwella a normalrwydd yn dychwelyd cyn bo hir.

Yn y cyfamser, cadwch yn saff!

# Y DRENEWYDD

Diolch i'r unigolion sy'n danfon newyddion o'r Drenewydd.
Rydym yn dal i chwilio am berson i fod yng ngofal Colofn y dref

## GOFAL ARBENNIG

Mae'n amser anodd iawn ar hyn o bryd yn enwedig i deuluoedd sydd ag aelodau mewn cartrefi gofal. Ni chaniateir ymweliadau ac ni ŵyr neb am faint fydd y gwaharddiad yn parhau.
Serch hyn i gyd mae'r cartrefi yn rhoi gofal arbennig iawn i'r preswylwyr. Mae mam Anne Kenyon, sef Meirwen Hughes gynt o Arfryn Carno a Threfaldwyn, Y Drenewydd y nghartref Llys Hafren yn Y Trallwng. Gwelwn hi yn y lluniau isod yn cael gofal a chariad gan staff y cartref, yn gyntaf ar Sul y Mamau ac yna yn cael Ŵy Pasg, penwythnos Y Pasg.

Braf yw ei gweld yn edrych mor gartrefol a hapus. Dymuniadau gorau iddi a holl breswylwyr y Cartref.







## A WYDDOCH CHI?

Ym Mis Mawrth eleni cofnodwyd y mwyaf erioed o werthiant bwyd ym Mhrydain Gwerthwyd £10.8 biliwn yn ystod y pedair wythnos ddiwethaf yn unig. Mae hynny hyd yn oed yn uwch na'r lefelau a welwyd adeg y Nadolig, yr amser prysuraf o'r flwyddyn o dan amgylchiadau arferol.

Rhwng dydd Llun 16 a dydd Iau 19 Mawrth, ymwelodd 88% o aelwydydd â siop groser, gan wneud pum taith ar gyfartaledd, gan ychwanegu hyd at 42 miliwn o deithiau siopa ychwanegol dros bedwar diwrnod.

Gyda bwytai a chaffis bellach ar gau, ni all yr un ohonom fwyta prydau bwyd allan a bydd 503 miliwn o brydau bwyd, cinio a byrbrydau yn bennaf, yn cael eu paratoi a'u bwyta gartref bob wythnos hyd y gellir rhagweld.

Wedyn a'r tafarnau i gyd ar gau, mae cwrw yn cronni yn seleri a neb yno i'w prynu. Bydd y gwastraff yn anghygoel gan nad ydy'r cwrw yn cael ei werthu yn 39,000 o'r tafarnau sydd ar gau ym Mhrydain. Mae'n debyg y bydd wedi sbwylio erbyn yr agorir y drysau eto. Fe gododd gwerthiant caniau a poteli cwrw yn uwch nag erioed yn yr archfarchnadoedd i fyny i 20% o werthiant arferol.

## LLANIDLOES

Bethan Lloyd Owen
Cysgod y Coed
Penyborfa, Llanidloes
01686 412242

### CANMOLIAETH i STAFF YSGOL UWCHRADD LLANIDLOES

Bu nifer o aelodau staff yr Ysgol Uwchradd wrthi'n ddyfal yn creu mygydau diogelwch i weithwyr y sector iechyd yn Llanidloes a'r ardaloedd oddi amgylch. Diolch am eu blaengarwch i geisio cynorthwyo gweithwyr ym meysydd iechyd y cylch mewn amser pryderus, prysur a pheryglus iawn iddynt.

### PWYLLGOR APÊL CORONAFEIRWS LLANIDLOES

Sefydlwyd y grŵp yma'n fuan iawn ar gyfer gwasanaethu trigolion y dref a'r ardal ac maent wedi bod wrthi'n ddyfal ers Mawrth yr 16eg. Mae dros 100 o wirfoddolwyr yn perthyn i'r grŵp ac maent yn cynorthwyo'r gymuned mewn nifer o ffyrdd.
Rhai ohonynt yw drwy ddosbarthu taflenni yn egluro pa ffyrdd maent yn gallu helpu - trefnu i siopa a dosbarthu'r siopa wrth stepen y drws, casglu moddion a meddyginaethau o'r siop fferyllydd a dosbarthu papurau newydd ac ati.

Un o'r achlysuron pan welwyd ei Gwasanaeth yn cael ei werthfawrogi'n fawr oedd i gynorthwyo Chris a Lorraine Evans, perchennog y Siop Pysgod a Sglodion Heol China, ar Ddydd Gwener y Groglith. Roedd Chris a Lorraine yn awyddus i barhau gyda'r traddodiad i gynnig a darparu Pysgod a sglodion i bobl ar y diwrnod arbennig hyn ond angen cymorth i drefnu, cludo a dosbarthu'r bwyd tra'n boeth i'r gwahanol stadau a rhannau o'r dref. Bu sawl un o aelodau'r grŵp wrthi'n ddyfal efo'r dasg.

Nid oedd cost wedi ei bennu am y bwyd gan Chris a Lorraine dim ond eu bod yn werthfawrogol o unrhyw roddion gawsai ei gyfrannu amdano ac y byddent yn cyflwyno'r arian hyn i Grŵp Covid 19 Llanidloes. Gweithred hyfryd a gwnaed cyfanswm o'n agos i fil o bunnoedd tuag at Gronfa Grŵp Coronafeirws Llanidloes, a derbyniodd dros 300 o bobl sglodion a physgod ar y diwrnod..
Da iawn yw gweld y parodrwydd hyn i gynorthwyo'r rhai mwy bregus a hŷn yn y dref a'r ardal gyfagos. Diolch yn fawr iawn i bawb o'r Pwyllgor

### LLONGYFARCHIADAU

Braf yw gallu estyn ein llongyfarchiadau i Naiomi Jerman, Stryd Bethel ac wyres Dwynwen Jervis, Pen-y-borfa ar ei llwyddiant i ennill Gradd 2 yn yr arholiad piano eisteddodd ddechrau Mawrth. Da iawn wir. Dalied ati efo'r gwersi ac yn sicr fod cyfeilyddion yn brin a bydd digon o waith cyfeilio ar gael i'r dyfodol i ti.

### CLAPIO I'R GWASANAETH IECHYD

Mae gwahanol rannau o'r dref yn gwneud hyn yn wythnosol yn Llanidloes ac mae'n braf gallu nodi fod trigolion ardal Pen-y-borfa o'r dref i gyd yn dod allan i glapio ac yna i godi llaw ar ei gilydd. Mae'n deimlad braf fod pawb yn gallu parhau i wneud rhywbeth gyda'i gilydd er ei bod yn gorfod cadw pellter oddi wrth ei gilydd.
Hefyd daeth preswylwyr Pen-y-borfa allan nos Lun, Ebrill 12fed am 8 o'r gloch i ganu'r anthem "Hen Wlad fy Nhadau" i ddiolch am waith y gweithwyr iechyd a'r gweithwyr allweddol eraill sy'n ein gwasanaethu yng Nghymru. Roedd y cyfeiliant yn cael ei drosglwyddo o radio car Bethan Lloyd-Owen a hithau'n arwain y canu efo'i baner o'r Ddraig Goch.

COFIWCH BAWB

CADWED MOR DDIOGEL AC SY'N BOSIB A GWRANDO AR Y NEGES MAE'R LLYWODRAETH YN EI CHYHOEDDI'N DDYDDIOL SEF ARHOSWCH GARTREF.

## YR URDD YN AGOR Y DRYSAU I EISTEDDFOD T!

“Caewch y drysau yn y cefn, y gegin a’r lolfa, diffoddwch y peiriant torri gwair a sychu gwallt a rhowch bob chwarae teg i’r cystadleuydd nesa’, mae **Eisteddfod T** ar fin dechrau...”

Dydd Gwener, Ebrill 24 cyhoeddodd Urdd Gobaith Cymru eu bod am gynnal Eisteddfod arbennig, wahanol eleni, sef **Eisteddfod T**. Yn dilyn y siom o orfod gohirio Eisteddfod Sir Ddinbych 2020 tan 2021, bydd Eisteddfod T yn ddathliad bywiog a byrlymus o holl ddoniau plant ac ieuenctid Cymru, ar lwyfan ychydig yn wahanol i’r un arferol.

Bydd y cystadleuwyr yn cystadlu yn ddigidol, trwy uwch-lwytho fideos, clipiau a lluniau o berfformiadau a chynnyrch, a bydd y rowndiau terfynol yn cael eu darlledu mewn rhaglenni arbennig ar S4C, ar wefan S4C ac ar BBC Radio Cymru. Cynhyrchir yr arlwy i S4C gan AVANTI.
Bydd Eisteddfod T (sy’n chwarae ar y geiriau ti a tŷ) i’w gweld a chlywed ar ystod o raglenni a phlatfformau yn ystod yr wythnos yn cychwyn Mai 25, sef yr wythnos pryd roedd yr Eisteddfod ei hun i fod i gael ei chynnal.


Mae’r rhestr testunau a chyfarwyddiadau sut i gystadlu i’w gweld ar wefan www.S4C.cymru/urdd, sydd nawr ar agor i gystadleuwyr. Yma hefyd mae cyfeiliant, gosodiadau, tips ffilmio a recordio a phopeth sydd ei angen i gystadlu. Yn ogystal â chystadlaethau traddodiadol fel cerdd-dant a chorau, mae cystadlaethau eraill mwy anffurfiol – dynwared, lip-sync a chystadlaethau i’r teulu i gyd... a hyd yn oed anifeiliaid anwes!

Dyddiad cau’r cystadlu yw Mai 11 am hanner dydd.
“Mi fydd Eisteddfod T yn arbennig,” meddai Cyfarwyddwr yr Eisteddfod, Sian Eirian. “Roedd yr Urdd yn benderfynol o gael Eisteddfod mewn ryw ffurf a darparu cyfle i blant a phobl ifanc lle mae’r Eisteddfod yn gymaint o ran o’u calendr. Yn yr un modd, roedd ein partneriaid darlledu - S4C a BBC Radio Cymru - hefyd yn awyddus i gynnal darpariaeth ar gyfer y cynulleidfaoedd sydd wedi arfer â wythnos o arlwy eisteddfodol ddiwedd Mai.

“Mi fydd Eisteddfod T yn cynnig cyfle am gystadlaethau arferol, ar lwyfan ychydig yn wahanol, a chael ychydig o hwyl yn ogystal.”
Meddai Amanda Rees, Cyfarwyddwr Cynnwys S4C: “Bydd S4C yn dod â holl dalentau gorau Cymru i chi, a hynny o gartrefi cannoedd o gystadleuwyr ledled y wlad.
Ry’n ni’n falch iawn o fod yn rhan o’r cynllun arloesol hwn gyda’r Urdd a byddwn yn darlledu yn ddigidol ac yn llinol gyda rhaglen uchafbwyntiau hefyd bob nos. Yn sicr mae’n mynd i fod yn ddigwyddiad i’w gofio!”

Dywed Rhuanedd Richards, Golygydd BBC Radio Cymru: “A ninnau mewn cyfnod anodd i bawb, gan gynnwys ein pobl ifanc, mae’n braf iawn cael cydweithio efo’r Urdd i ddod â hwyl yr ŵyl newydd a gwahanol hon i wrandawyr BBC Radio Cymru. Mi fydd Eisteddfod T yn gyfle i ni ddarlledu doniau a thalentau newydd Cymru, o gartrefi’r cystadleuwyr, i dde-gau o filoedd o dai ar hyd y wlad, gyda rhai o leisiau adnabyddus yr orsaf yn llywio’r arlwy. Rydyn ni’n edrych ‘mlaen yn fawr ac yn falch o gael y cyfle hwn i geisio codi calonnau’r genedl.”

Gyda thestunau Eisteddfod Sir Ddinbych 2020 wedi eu rhewi tan flwyddyn nesaf, mae holl destunau Eisteddfod T yn newydd, a’r mwyafrif yn hunan-ddewisiad. Bydd Eisteddfod T hefyd yn cynnig prif wobrau llenyddol, cerdd, drama, celf ac i ddysgwyr yn ystod yr wythnos.
Twitter: @eisteddfodurdd
Facebook: @eisteddfodurdd
Instagram:
@urddgobaithcymru
TikTok: @urddgobaithcymru
#EisteddfodT



## LLANIDLOES

Bethan Lloyd Owen
Cysgod y Coed
Penyborfa, Llanidloes
01686 412242


**SIOP WOOSNAM & DAVIES**

Mae'r neges yn glir oddi wrth Trudy o Siop Woosnam a Davies i bobl yr ardal.
"Peidiwch ag anghofio am eich papur newydd lleol, gallwn ni ei ddosbarthu i'ch drws. Dyma beth mae'r siop leol deuluol yn ei wneud yn ystod argyfwng y Coronafeirws hwn. Does dim rhyfedd ei bod wedi ennill gwobrau yn ddiweddar.

Ymunodd Clwb Rotari Llanidloes gyda nhw wythnos cyn y Pasg a rhoi Ŵy Pasg enfawr i Bodlondeb ar gyfer eu staff a'u preswylwyr, fel anrheg Pasg iddynt.

Llongyfarchiadau i Emma, Janet a Jane. Mae'r Siop yn awr wedi penderfynu tynnu y raffl Wyau Pasg enfawr yn gynnar a chafwyd tri enillydd o'r tocynnau werthwyd eisoes a gwnaed hamper Pasg ar gyfer y wobr, hefyd Ŵy Pasg a thun o losin gan mai dim ond ychydig a werthwyd cyn yr argyfwng Coronafeirws.

Bydd yr ychydig arian a godwyd gennym yn mynd i Apêl DeFib. Bydd Siop W&D yn dyblu y swm a godwyd.

Allwch chi grosio?
Allwch chi helpu?

Gwnewch rai mygydau wyneb i weithwyr allweddol a ddaw i'r siop. Os ydych angen gwlân neu fotymau, gadewch i Trudy wybod ac fydd yn trefnu gollwng ar eich stepen drws.

DIOLCH yn fawr i Rich Williams a phawb yn Ysgol Uwchradd Llanidloes am weithred o garedigrwydd i wneud masgiau wyneb ar gyfer y gweithwyr yn y siop ac eraill.

Llongyfarchiadau i 'NANCE' yn Maes y Wennol a ddathlodd ei phen-blwydd yn 101 yr wythnos diwethaf. Danfonodd Woosnams gerdyn a chacen Pen-blwydd iddi oddi wrth pawb yn Llanidloes a dymunwyd diwrnod hapus iddi. Byddai cymaint ohonoch chi wedi hoffi dathlu'r diwrnod gwych hwn gyda hi pe bai pethau yn wahanol.

Peidiwch â mynd i gysgu ar stumog wag. Peidiwch â bod ofn neu gywilydd anfon Gadewch eich cyfeiriad a faint sydd yn eich cartref a fydd Trudy yn fwy na pharod i rannu beth bynnag y gall. Mae ei ffrindiau a'i theulu eisoes yn gwybod hyn ond os nad oes unrhyw un yn gweithio / ddim yn cael incwm ac yn rhedeg allan o fwyd, neu os yw'r amseroedd yn anodd ... (Mae'r rhan fwyaf ohonom wedi gweld amseroedd fel hynny).

Llongyfarchiadau i Ann a Mike Ingram, Caegwyn ar Benblwydd eu Priodas Ddeimwnt.
Danfonodd Woosnams gerdyn a siocledi oddi wrthynt hwy a phobl y dref. Byddai llawer ohonynt wedi bod yn mwynhau dathlu'r diwrnod gwych hwn gyda'r pâr.

Mae siop Talerddig wedi rhoi cacennau a bara i'r gwirfoddolwyr sy'n dosbarthu i'r rhai sydd angen a dymunwyd Pasg Hapus i bawb. Da iawn chi.

Mae'n debyg nad yw'r mwyafrif ohonoch wedi cael ei weld ond mae arddangosfa arbennig o'r Pasg yn ffenestri y Siop.



Mae Siop Woosnam a Davies ynghyd â Siop Talerddig yn cynnig gwasanaeth dosbarthu yn ddyddiol ac wythnosol am ddim. Gwelir rhestr o'r ardaloedd isod:

<u>DYDDIOL</u>
Llanidloes / Felindre / Y Fan / Glan y Nant.

<u>DYDD MAWRTH</u>

Ardaloedd Pantydwr, Nantgwyn, Rhaeadr, Tylwch, Sant Harmon, Cwmbelan.

<u>DYDD IAU</u>

Ardaloedd Llidiartywaen, Newchapel, Glan y Nant, Hen Neuadd, Tanhinion.

<u>DYDD SADWRN</u>

Ardaloedd Trefeglwys, Caersws, Cerist, Llandinam, Dolwen.

Dim cyswllt wrth ddosbarthu - byddwn yn gadael eich cyflenwadau lle rydych chi'n ein cyfarwyddo a'ch ffonio i roi gwybod i chi ein bod ar y ffordd.
Rydym yn diolch i chi am eich amynedd a'ch cefnogaeth - Ffôn 01686 412 263 os yw'r ffôn yn brysur, anfonwch neges destun at 07852 199 289 a gadewch eich manylion cyswllt a byddwn yn eich ffonio yn ôl cyn gynted â phosibl.

Gallwch dalu drwy cyfrifon wedi'u sefydlu a / neu daliadau gyda siec neu gyda cherdyn dros y ffôn.

Gwych yn wir. Mae'r bobl yn ein trefi a'n pentrefi yn tynnu gyda'i gilydd i hwyluso bywyd i bobl sy'n gaeth i'w cartrefi.




# HYSBYSEBWCH YN Y SEREN

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y Seren mis yma. Mae wedi bod yn ddiddorol iawn i'w roi at ei gilydd.

Gobethiwn y bydd pethau yn ôl i normal cyn hir.

## <u>CLWB Y SEREN MIS EBRILL</u>

| | | |
|---|---|---|
| Rhif 14 | Brenda Griffiths | £20 |
| Rhif 50 | Janis Lewis | £15 |
| Rhif 29 | Margaret Hughes | £10 |

## <u>CLWB Y SEREN MIS MAI</u>

| | | |
|---|---|---|
| Rhif 32 | R.B.Knowles | £20 |
| Rhif 56 | Sarah Astley-Davies | £15 |
| Rhif 28 | Anne Rees | £10 |



# CARNO

Diolch i'r unigolion sy'n danfon newyddion i ni o Garno

## LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Llyr ac Ebonie Thomas, Pensarn, ar enedigaeth mab, Griff Lewis Thomas, ar Fawrth 27ain, brawd bach i Alys a Magi ac ŵyr i Huw a Delyth, Sarn ac Aiden a Beryl Gethin, Llanllyr. Newyddion da ynghanol yr holl ddiflasdod yma.

## ARDDANGOSFA

Mae Arddangosfa Cwiltio Carno wedi ei gohirio oherwydd sefyllfa salwch coronafeirws o Fis Gorffennaf hyd at hanner tymor ysgol yn yr Hydref eleni. Ar hyn o bryd mae'r aelodau yn dal i wnio a rhai yn gwneud bagiau i'w defnyddio gan y Banc Bwyd yn Y Drenewydd.



Y bagiau maent wedi bod yn brysur yn eu creu

# GŴYL GERDD MALDWYN

Gŵyl Gerdd Maldwyn 2020

Siom fawr i gefnogwyr canu corawl clasurol yn y canolbarth yw deall y bu'n anorfod gohirio dros dro gyngerdd blynyddol Gŵyl Gerdd Maldwyn, oedd i fod i'w chynnal yn Hafren yn Y Drenewydd ar nos Sadwrn y 9fed o Fai 2020. Roedd nifer o elfennau cyffrous wedi eu trefnu ar gyfer eleni, i ddathlu naw deg nawfed flwyddyn bodolaeth y gymdeithas gorawl arbennig hon.

Hefyd roedd paratoi dygn wedi bod ar y gweill ers misoedd lawer i berfformio Ffanffer newydd sbon a gomisiynwyd ar gyfer y côr hwn, i nodi tri chwarter canrif ers cyhoeddi Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop, ar ddydd Gwener yr 8fed Mai;

At hynny, roedd yn fwriad gan GGM i lansio blwyddyn arbennig iawn, a fyddai'n arwain at raglen amheuthun y flwyddyn nesaf (2021) i ddathlu canmlwyddiant Gŵyl Gerdd Maldwyn, a sefydlwyd yn 1921.

Dim ond am un cyfnod o bum mlynedd y bu i'r gymdeithas gorawl hon erioed cyn hyn gael ei gorfodi i atal rhag cynnal ei chyngerdd ar nos Sadwrn cyntaf pob mis Mai yn flynyddol; sef o Fai 1940 hyd Mai 1945. Yr Ail Ryfel Byd oedd yn gyfrifol y pryd hynny; ac fel y mynegwyd gan am-ryw sylwebydd yn y dyddiau sydd ohoni, 'rhyfel' o fath fwy caethiwol fyth, sydd y dyddiau hyn eto yn gwarafun i ni ymgynnull mewn unrhyw fath o ddigwyddiad torfol.

Mae trefnwyr Gŵyl Gerdd Maldwyn ar hyn o bryd yn archwilio'r posibiliadau o lwyfannu eu cyngerdd 2020 rywbryd tua diwedd tymor yr hydref eleni, naill ai yn Llanidloes neu yn Y Trallwng; yn gwbl ddibynnol, wrth gwrs, ar argaeledd lleoliad cymwys unwaith y bydd y pandemig angheuol hwn wedi ei ddifa a'i ymlid o'n tir, a phan ganiateir cynnal digwyddiadau torfol unwaith eto. Hysbysir yr union fanylion gynted ag y bydd hi'n ymarferol bosib i wneud hynny; ac edrychwn ymlaen at groesawu ein cynulleidfa o ffyddloniaid cerddorol y pryd hynny.



# CAERSWS

Delma Thomas
Preseli, Heol y Capel
Caersws
SY17 5ED
01686 688 538
delmac.thomas@hotmail.com




## PENBLWYDD HAPUS

Bu Siop Costcutters yng Nghaersws yn dathlu ei phenblwydd cyntaf ganol Ebrill. Oes yn wir i chi mae blwyddyn gron wedi mynd heibio ers ei hail agor ar ei newydd wedd y llynedd.

Llongyfarchiadau iddynt, ac yn wir rhaid diolch yn fawr iawn iddynt am fod mor groesawgar yr wythnosau diwethaf yma, o dan amgylchiadau anodd iawn. Mae gwên ar eu gwynebau bob tro yr ewch drwy'r drws, a does dim yn ormod o drwbwl iddynt. Maent yn trefnu mynd a nwyddau allan i dai pobl. Dim ond ffonio sydd angen ac fe fyddant yn dod a beth bynnag fyddwch eisiau i stepen eich drws.

Mae'n siwr fod hyn yn wir ym mhob pentref a thref yn yr ardal. Da gweld pobl yn tynnu at ei gilydd mewn argyfwng.

Mae hefyd grŵp o wirfoddolwyr yn y pentref yn mynd a negeseuon i'r rhai nad ŷnt yn medru gadael eu cartrefi.




Does dim yn ormod iddynt wneud.

Rhaid hefyd diolch i eraill am ei gwaith ar amser anodd. Y gyrrwyr loriau sydd yn dod a nwyddau, bara, llaeth, llysiau a ffrwythau a phob peth arall i'r siopau.
Mae'r postmyn hefyd yn dod o ddydd i ddydd a llythyron a pharseli i'n drysau, ac mae ambell lythyr neu gerdyn yn codi calonnau pobl yn enwedig y rhai sydd yn byw ar eu pen eu hunain. Maen nhw'n deud wrtha i ei bod hi fel Nadolig yn y Swyddfa Bost yn Y Drenewydd.
Diolch iddynt i gyd, heb anghofio ein dyn llaeth lleol. Yn aml does neb yn ei weld gan ei fod yn gweithio yn oriau mân y bore.
A rhaid peidio anghofio y bechgyn sy'n casglu sbwriel bob wythnos. Beth yn y byd wnaethem ni hebddynt.

Maent i gyd yn gwneud gwaith gwerthfawr iawn.

## CYDYMDEIMLAD.


Trist oedd clywed am farwolaeth Arwyn Owen o Landinam a oedd yn Aelod ffyddlon yng nghapel Y Presbyteriaid yng Nghaersws ac hefyd yn mynychu y Gyrfaoedd Chwist yn y pentref tan i'w iechyd ei orfodi i roi fyny. Cydymdeimlwn yn ddidwyll gyda'i deulu.

Trist hefyd oedd clywed am farwolaeth Wyn Jones, gynt o Erw Deg, Caersws. Roedd bellach wedi symud i fyw at ei fab yn Y Drenewydd rhai blynyddoedd yn ôl. Cydymdeimlwm gyda'i deulu yntau.
Rydym yn meddwl amdanoch ar adeg trist iawn yn eich bywydau.



## “HEL MEDDYLIE”

Mae'n rhyfedd fel mae gorchwyl syml yn arwain at ystyr geiriau a hanesion personol!
Eleni, rydym wedi hau mwy o hadau bach nag arfer mewn blychau. Gan fod ein stiwdio yn wag ac yn gynnes, dyna lle mae pob math o blanhigion yn egino. Rhaid egluro fod y stiwdio ym Maesmawr yn yr hen gartws, adeilad a thair wal a'r pedwerydd yn agored. Er bod y stiwdio'n gynnes fe wnaethom sylwi mai dim ond o un cyfeiriad yr oedd y golau'n cyrraedd.
Oherwydd hyn roedd y planhigion bach yn gwyro tua'r haul ac roedd yn rhaid troi'r blychau bob dydd!
Cofiais fy ngwersi bioleg yn Ysgol Y Preseli ac mai ***heliotropism*** yw'r enw ar yr effaith hyn. Trwy hyn fe ddysgais ychydig o'r iaith Groegaidd gan fod yr enw yn deillio o Helios, sef yr enw ar yr haul yn yr iaith honno.
O hyn daeth atgofion am yr athro Bywydeg, sef Mr Alun Davies neu 'Dai Biol' fel y'i gelwyd tu ôl i'w gefn.
Mae sôn am Alun Davies yn mynd a fi nôl i'r adeg pan gyfarfyddais a'm diweddar wraig, Lyn. Roedd y ddau ohonom yn astudio yr un pynciau sef, Cemeg, Botaneg a Sŵoleg. Dyddia da!
A dyna'r meddyliau sy'n dod i ddyn wrth blannu hadau bach!




Gwelwyd yr holl fathau isod o Gennin Pedr ar lawnt Canolfan Gelf Maes-mawr, Caersws y Gwan-













## Y DRENEWYDD

Diolch i'r unigolion sy'n danfon newyddion o'r Drenewydd. Rydym yn dal i chwilio am berson i fod yang ngofal Colofn y dref

### CYDYMDEIMLO

Mae cymuned gyfan wedi ei syfrdanu gyda'r newyddion trist am Richard Tudor, Llysun, Llanerfyl. Cafodd ddamwain tractor erchyll wrth drin y tir ar y 3ydd o Ebrill.

Roedd Richard yn ŵr ifanc, galluog dim ond 45 mlwydd oed. `Roedd yn ŵr i Catrin ac yn dad i Morgan a Lois. Ei dad a'i fam yw Mr a Mrs Tom ac Ann Tudor, Llysun, Llanerfyl a'i fam yng nghyfraith yw Mrs Margaret Hughes, Y Fron, Y Drenewydd.

Cynhaliwyd yr angladd dydd Mercher yr 22ain o Ebrill.

`Rydym yn cydymdeimlo yn enfawr gyda'r teulu yn eu profedigaeth.




### LLONGYFARCHIADAU

Croeso i faban bach newydd. Merch fach, Betsi Wyn i Guto a Heledd Hughes, Caerdydd ar yr 26ain o Chwefror. Daeth i'r byd naw wythnos cyn ei hamser a trwy wyrth a gofal yn yr Uned Gofal Neo Natal yn Yr Heath mae nawr adre yn ddiogel gyda dad a mam. Mamgu a Thadcu, Betsi, yw Alun a Mair Thomas, Bryn Meadows, Y Drenewydd. Nain a Taid yw John Ogwen a Maureen Rhys, Bangor. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i'r teulu bach.



Betsi Wyn



Betsi Wyn gyda'i rhieni

### LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Aled a Menna Morris, Glan Hafren, Ffordd Llanidloes, Y Drenewydd ar enedigaeth bachgen bach, Reuben Alfie. Cafodd Reuben ei eni ar y 5ed o Fawrth. Mae yn or-ŵyr cyntaf i Mrs Peg Morris, Llys Glanyrafon, Y Drenewydd. Mae or- nain wrth ei bodd ac yn edrych ymlaen am gael cwtsh. Pob bendith i'r teulu bach.

### DYMUNIADAU GORAU

Dymuna ffrindiau Mrs Margaret Hughes, Y Fron, Y Drenewydd, wellhad buan iddi. Mae wedi bod yn yr ysbyty yn Yr Amwythig a Thelford ddwy waith yn ddiweddar yn cael profion.
Pob dymuniad da am iechyd gwell.





## PENFFFORDDLAS

Falmai Puw Davies
Craignant, Nantmel LD1 6EW
01597 810 864
Ann Griffiths, Braichyfedw
Penfforddlas. 01686 430 435

### CYDYMDEIMLO

Ebrill y 5ed, ar ôl tridiau yn Ysbyty Bronglais, bu farw Maldwyn Davies, Aberbiga a Phentremawr. Roedd yn fab i Dei a Mary Davies ac wrth ei fodd yn ffermio. Treuliodd ei fywyd yn ffermio tan iddo symud i Bodlondeb dair mlynedd yn ôl. Claddwyd ei weddillion ym mynwent y Graig, Penfforddlas. Mae'r deyrnged isod iddo gan ei nai Aled Wyn Davies, Pentremawr.

### TEYRNGED I MALDWYN DAVIES

Ar ddydd Sul, 5ed o Ebrill, yn ysbyty Bronglais, bu farw Maldwyn Davies (gynt o Bentremawr) yn 75 mlwydd oed, wedi gwaeledd byr. Rhoddwyd i orffwys mewn gwasanaeth i'r teulu agosaf ym mynwent y Graig ar y 14eg o Ebrill dan ofal y Parchedig Iestyn ap Hywel. Cafodd Maldwyn ei eni yn 1945 yn fab i'r diweddar David ac Elizabeth Davies, Aberbiga, Penfforddlas – yr wythfed o naw o blant, ac yn frawd i Ann, Mair, John, Martha, Margaret, Evan a'r diweddar Gwen ac Iona. Cafodd ei eni a'i fagu yn Aberbiga gan weithio ar y fferm gyda'i frawd, Evan, cyn symud i fyw i Bentremawr,Llanbrynmair yn ystod y 1960au pan fu'n rhaid gadael Aberbiga o ganlyniad i gynllun cronfa ddŵr Clywedog am fod y fferm deuluol yn cael ei boddi.

Wedi iddo adael yr ysgol, bu'n weithiwr tawel a diwyd gartref ar y fferm ac roedd wrth ei fodd yn gweithio gyda'r gwartheg a'r defaid. Bob tymor wyna byddai'n trafeilio'n ddyddiol i fyny ffordd Pandy i Nantcarfan, fferm arall y teulu, ar ei dractor 135 a'i gi ffyddlon tu ôl iddo, i fwydo'r defaid. Roedd o wastad yn deud bod "y còg 'ma byth yn rhoi pethe gadw" am ei frawd, Evan, wrth iddo ddefnyddio offer y fferm. Ond roedd ganddo gof aruthrol ac roedd Maldwyn yn siŵr o gofio lle roedd popeth wedi cael ei adael!

Treuliodd lawer orig hapus fin nos yng nghwmni teuluoedd yr Esgair a Brynaire Uchaf. Bu plant yr Esgair, Stephen a Jayne Sheridan, yn ei gwmni sawl tro wrth geisio dysgu'r Highway Code iddo cyn ei brawf gyrru car, ac wedi iddo basio roedd o wrth ei fodd. Roedd hyn yn galluogi iddo fynd am dro bach i ffermdai cyfagos am sgwrs fin nos. Wedi iddo ennill mwy o hyder, mentrodd ymhellach i ymweld â theulu a ffrindiau. Wrth gofio am eu hewythr, mae Aled ac Anwen – y ddau wedi'u magu yn ei gwmni ym Mhentremawr – yn cofio sawl tro trwstan amdano ar y fferm, gan gynnwys un stori arbennig amdano'n croesi defaid dros y rheilffordd flynyddoedd yn ôl! Bydd y storïau doniol hyn yn aros yn y cof am byth.

Wrth i'r blynyddoedd fynd heibio, dirywiodd iechyd Maldwyn wedi iddo ddiodde o'r cryd cymalau ac yna'n ddiweddarach o'r Clefyd Parkinson. Aeth gwaith caled y fferm yn drech nag o yn y diwedd, a'r unig bethau roedd o'n gallu gwneud erbyn hyn oedd mynd am dro ar y beic i weld beth oedd yn mynd ymlaen a bwydo'r cŵn.
Treuliodd lawer awr yn gwrando ar gerddoriaeth ar y radio a'r teledu, ac roedd yn mwynhau mynd yn ôl i'r Stae i fynychu cyngerdd. Ymfalchïodd hefyd yn llwyddiant ei nai, Aled, ym myd y canu.

Bu yn ffermio tan iddo symud i Bodlondeb dair blynedd yn ôl, a bu'n hapus iawn yno gan dderbyn pob gofal a charedigrwydd.



Pan deimlai'n weddol, âi am dro bach yn y fan efo Bryn, ei frawd yng nghyfraith, i weld beth oedd yn digwydd ar y ffermydd cyfagos.

Diolch arbennig i'r gofalwyr ym Modlondeb, a'i deulu agosaf, am eu gofal tyner ohono dros y blynyddoedd diwethaf.

## COLLED

Yr un diwrnod a marw Maldwyn bu farw Edfryn Gethin, ewythr Falmai, ar ôl salwch hir. Arferai ef a'i wraig Fay fyw yng Ngheri, lle codwyd eu merched Helen, Heather, a Gillian. Arferai Edfryn weithio i gwmni ymgymerwyr Leach a'i feibion yn Y Drenewydd. Symudodd y teulu i Gasnewydd lle roedd Edfryn a'i gwmni yn ymgymerwyr am flynyddoedd cyn iddo ymddeol.

Bu farw ei fam, (Nain Falmai) yn ifanc pan oedd Edfryn yn fabi. Claddwyd ef yng Nghasnewydd, Ebrill $17^{eg}$. Collodd Falmai gefnder ac Ewyrth yr un diwrnod.
Cydymdeimlwn fel ardal yn y golled erchyll o golli Richard Llysun, Llanerfyl. Cydymdeimlwn a'i wraig a'i blant ac a Tom ac Ann Llysun sy'n gyfarwydd i bawb yn y canolbarth. Cydymdeimlwn hefyd a'i deulu yn y pentre'.


## GWELLHAD

Pryder i ni fel ardal oedd clywed am salwch Ann Braichyfedw, ein gohebydd lleol. Bu Ann am wythnos yn Ysbyty Bronglais, cyn dod adre' i ymgryfhau wedi niwmonia dwbl. Deil i fod yn eithriadol o wan a da fod Jane adre' yn helpu dros yr wyna. Dymuniadau gorau i chi'ch pedwar fel teulu ar yr adeg anodd yma. Cadwch yn saff a llwyr wellhad i ti Ann.

## ADDOLI

Meddyliwn am bawb yn y cylch sydd yn hunan ynysu yn y cyfnod anodd yma. Bu oedfaon diddorol ar Dechrau Canu ar fore Sul. Braf oedd gweld wynebau cyfarwydd mewn rhai o'r emynau, fel Hywel Anwyl ac Owen Jones. Sul y $12^{fed}$ o Ebrill bu'r Parchg Denzil John yn pregethu gyda'i neges gref o fywyd newydd i bawb sy'n credu ynddo Ef, gan nodi Gobaith, Goleuni a Heddwch mewn amser caled a byd tywyll.

Bu Denzil a'i ewyrth Eric John o Fynachlog Ddu, Sir Benfro, yn Pregethu yn Y Stae gyda'r Bedyddwyr, Sul 19eg. Cawsom neges gref o'r Priordy Caerfyrddin ar Sul y Pasg Bach yn ôl Beti eu gweinidog gan sôn am Iesu'n mynd at ei Dad, ac




aberth y disgyblion yn rhoi popeth i fyny i ddilyn Iesu, hyd yn oed i'r groes. Gwelsom lu o bobl Maldwyn yn y gynulleidfa i'r emyn cynta' a llawer o aelodau Heol China.

Diolchwn i S4C am yr adnoddau, rhain ar adeg y cau-lawr pan na allwn gwrdd a'n gilydd ac i'r gwenidogion sy'n rhoi negeseuon ar lein.

## PNAWN DA

Da oedd gweld Aled Wyn a'i deulu ym Mhentremawr yng nghanol yr wyna ar raglen Pnawn Da. Ynte'n canu yn y sied wyna. Roedd y plant, Aria ac Aron wedi bod yn hel cerrig crwn a'i paentio gyda'i mam Karina a rhoi teyrnged i'r G.I.G ac i Pnawn Da ac i anifeiliad. Arferem hel cerrig gro yn y Clywedog pan yn blant. Dyna lle'r oedd ein canolfan hamdden yn yr haf.



## CADW EIN HARDALOEDD AWYR AGORED YN DDIOGEL

Yn ystod y cyfnod hwn o gyfyngiadau symud, rydym yn dal yn ddigon ffodus i allu mwynhau mynediad diogel i'r awyr agored ar gyfer ein hymarfer corff dyddiol.

Mae'r tywydd cynnes a heulog diweddar wedi sbarduno'r gwanwyn, ac mae'r glaswellt yn tyfu'n gyflym. O ganlyniad, bydd y Cyngor yn dechrau torri gwair mewn mynwentydd, ar stadau tai ac ardaloedd amwynder y sir yn fuan. Bydd hwn yn wasanaeth ar raddfa lai o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, ond bydd y gwaith yn sicrhau bod y rhan fwyaf o'n hardaloedd allanol yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn daclus fel bod preswylwyr yn gallu eu defnyddio mewn ffordd gyfrifol

Dywedodd y Cynghorydd Heulwen Hulme, Aelod y Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, “Mae staff y cyngor a fydd yn gwneud y gwaith torri gwair hyn wedi cael yr hyfforddiant a’r cyfarpar priodol i gadw eu hunain a’r cyhoedd yn ddiogel wrth iddyn nhw wneud y gwaith

Hoffwn atgoffa preswylwyr i barchu’r rheolau o ran cadw pellter cymdeithasol pan fyddwch yn eu gweld nhw ac i roi’r lle sydd ei angen arnynt i wneud eu gwaith.

Trwy weithio gyda’n gilydd gallwn sicrhau ein bod yn cadw ein mannau awyr agored yn daclus ac yn ddiogel i bawb eu mwynhau wrth iddyn nhw wneud eu hymarfer corff dyddiol.
“Hoffwn ddiolch i’n holl staff am eu gwaith caled diflino yn ystod y cyfnod hwn ynghyd ag amynedd a chymorth ein preswylwyr, diolch yn fawr.”

.

## Y CYNGOR YN DATGAN BOD ANGEN RHAGOR O WEITHWYR GOFAL

Mae gweithwyr gofal ym Mhowys yn gwneud gwaith gwych yn gofalu am ein pobl hŷn a thrigolion sy’n agored i niwed yn ystod pandemig Covid-19.

Fodd bynnag, rydym angen rhagor o bobl, dyna’r neges gan Gyngor Sir Powys.

Mae Cyngor Sir Powys yn chwilio am staff gofal ledled y sir. Bydd hyfforddiant llawn yn cael ei roi a bydd y swyddi hyn yn gweithio ar y cyd â darparwyr gofal, mewn cartrefi gofal ac mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys. Mae ystod eang o batrymau gwaith ar gael gyda rhai yn ystod nosweithiau a

Esboniodd y Cynghorydd Myfanwy Alexander, Aelod y Cabinet ar faterion Gofal Cymdeithasol Oedolion, Cyngor Sir Powys: “Os ydych yn chwilio am ffordd i gyfrannu at y frwydr yn erbyn COVID-19, yna gallai’r cyfleoedd yn y sector gofal fod i chi. Byddwch yn gallu cymryd balchder eich bod yn gwneud eich gorau yn y cyfnod anodd hwn ac yn gosod sylfeini ar gyfer gyrfa dda ar yr un pryd.

“Os nad ydych wedi ystyried y sector gofal o’r blaen, nawr yw’r amser. Camwch ymlaen a gallwch wneud byd o wahaniaeth,” ychwanegodd y Cynghorydd Alexander.

Os oes gennych ddiddordeb yn un o’r rolau yma, ewch i https://recruitment.powys.gov.uk/ neu ffoniwch 01597 826409.
Mae’r cyngor hefyd yn chwilio am bobl ar gyfer swyddi eraill i helpu diogelu’r sir yn ystod y pandemig Covid19. Mae’r swyddi wedi’u hysbysebu ar y dudalen gwe uchod.



Urddas. Cydraddoldeb. Cyfiawnder. Cariad.
106 Stryd Fawr, Bangor, Gwynedd,
LL57 1NS, Cymru

Dignity. Equality. Justice. Love.
106 High Street, Bangor, Gwynedd,
LL57 1NS, Wales

## WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL AR LEIN!

Mewn ychydig wythnosau, mae pandemig y Coronafeirws wedi creu newid rhyfeddol yn ein cymdeithas.
Mae'r haint wedi effeithio pob rhan o fywyd. Daeth â dioddefaint ac ansicrwydd i gymaint, yma a thramor, gan wthio'i hun i flaen ein meddwl, ein sgyrsiau a'n gweddïau. Ac rydan ni i gyd yn gorfod addasu o'i oherwydd.

Mae eglwysi Cymru hefyd wedi addasu, wrth iddynt gael eu cau allan o'u hadeiladu. Ond mae nifer wedi ymateb i'r her a bellach ceir gwledd o oedfaon a myfyrdodau ar lein i'n helpu i barhau i addoli.
Yn yr un ffordd, mae Cymorth Cristnogol hefyd yn gorfod addasu.

Am y tro cyntaf ers degawdau lawer, ni allwn gynnal Wythnos Cymorth Cristnogol arferol ym mis Mai eleni. Ond tydi hynny ddim yn golygu ein bod am wneud dim.

Bydd cyfle i gynnal y gweithgareddau arferol yn yr hydref, ond mae cyfle i ymuno mewn gweith-gareddau ar lein ym mis Mai. Mae Trefn Gwasanaeth, Gweddïau a Nodiadau Pregeth i gyd yn barod ar ein gwefan.

Gallwch eu defnyddio ar eich cyfrifiadur neu ddyfais, neu eu hargraffu ar bapur adref.
I'r eglwysi hynny sy'n paratoi oedfaon ar lein pob Sul i'w haelodau, beth am ddefnyddio'r Trefn Gwasanaeth arbennig sy wedi ei pharatoi ar gyfer Sul 10 Mai? Mae'n troi o amgylch yr arfer pwysig o olchi dwylo.


Yn ychwanegol bydd gennym ddefosiwn dyddiol ar fidio ar ein cyfryngau cymdeithasol a chwis ar Facebook i Gymru gyfan ymuno ynddo!

A does dim yn eich atal i greu eich syniadau codi arian ar lein eich hun. Byddem wrth ein bodd cael dathlu'ch syniadau creadigol.

Meddai Cynan Llwyd, Pennaeth Cymorth Cristnogol Cymru dros dro, 'Mae wedi bod yn wych derbyn negeseuon cefnogol gan ein cefnogwyr tuag at ein chwiorydd a'n brodyr dramor, a phobl yn gofyn sut allen nhw barhau i gefnogi Wythnos Cymorth Cristnogol mewn cyfnod mor anodd.

'Rwy'n gobeithio'n fawr y byddwch yn gallu ymuno yng ngweithgarwch yr Wythnos ar lein ym mis Mai, wrth inni gynnig adnoddau arbennig i'ch helpu i weddïo a chodi arian dros y rhai a effeithir gan dlodi.

'Nid yw cariad yn darfod byth. Mae'r Coronafirws yn ein heffeithio i gyd. Ond mae cariad yn ein huno i gyd. Gadewch inni i gyd uno dros Wythnos Cymorth Cristnogol a sefyll mewn undod dros y mwyaf bregus yn ein byd.'
Cewch hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf a'r adnoddau ar ein gwefan - https://www.christianaid.org.uk/get-involved-locally/wales/



## EBYCHIADAU

Mae'r Iaith Gymaeg yn un rhyfedd a chyfoethog iawn hefyd.
Mae gennym ansoddeiriau hyfryd a dywediadau rhyfedd. Fe elwir rhain yn ebychiadau. Dydw i ddim yn siwr pam maent wedi cael yr enw hyn. Ond maent yn ddiddorol iawn ac yn gwahaniaethu o ardal i ardal fel ein tafodiaethoedd.
Mae'n siwr fod yna darddiad diddorol i rhan fwyaf ohonynt. Dyma un neu ddau.

## "Caton pawb!"

Dyma'r fersiwn Gymraeg o '*God help us!* Yr ystyr llythrennol yw 'Duw a gadwo bawb' a bod y gair 'cadwo'n' wedi newid i 'caton' dros y blynyddoedd maith.

Mae Duw yn dod fewn i nifer o'r ebychiadau. Ond roedd rhaid cael parch at Dduw, felly roedd nifer o'r ebychiadau yn cael rhyw newid bach cyfleus, fel na wnaed dangos amharch tuag at Dduw.

"Brensiach y Brain" neu "Brensiach y Bratiau". Newidiwyd y Brenin i fod yn Brensiach rhag pechu, gan mai fel Brenin y cyfeiriwyd at Dduw. Brensiach annwyl. Rydym yn dweud Brenin y bratia neu Brenin y brain am ei fod yn sefyll am Brenin y Brenhinoedd.

Wedyn ceir ebychiadau fel 'Bendith y Nefoedd!', 'Nefoedd yr Adar!'
Cefndir Cristnogol i rhain eto, yn dweud ein bod yn edrych tua'r nefoedd am ateb. Mae'n siwr yr un tarddiad a "Good Heavens" neu "Heavens above" yn Saesneg.

Flynyddoedd yn ôl roedd yna dueddiad i droi enwau fel Arglwydd, Duw ac Iesu yn eiriau mwy derbyniol e.e "'Rargol" neu "Rargoledig" wedi tarddu o "O'r Arglwydd" A'r "Arglwydd Mawr" wedi troi i "Rargian fawr"

Mae'r Iesu wedi ei guddio mewn ebychiad arall e.e. Fe glywn "Esgob" neu "Esgob annwyl" neu "Iesgwrn mawr" neu "Iesgwrn Dafydd"


A'n ffeffryn i o rhain i gyd ydy Jiw Jiw! sydd wedi troi o Duw Duw!
Clywn hefyd "Duwcs" "Duwcs annwyl"
Roedd newidiadau fel hyn yn galluogi pobl i ddweud pethau mawr mewn ffurff guddiedig, heb amharchu neu bechu neb.
"Nefi Blŵ" wedi tarddu o'r Nefoedd efallai!

"O Mam bach" Cri ar y Fendigaid Fam sef y Forwyn Mair i gael ei chymorth.
"Wannwl Fawr" (un o ffefrynau Dilwyn Morgan!) O'r Annwyl Un sef Iesu neu Y Forwyn Fair. Cri am gymorth
"Taw ni'n marw" Petawn i'n marw. Llw ar fy mywyd fy hun.
"Taw ni'n slec" Petawn i'n "Mowredd Mowr"



Yn yr un ffordd cafwyd nifer o ebychiadau o Uffern a'r Diafol e.e "Uffern dân" "Uffach gols" "Uffach wyllt"
Ac o'r diafol cawn "Diawl" "Diawl eriod" "diawl ariod" "Jawch ariod" "Myn diawch" "Myn diain i"

Ydych chi yn defnyddio ebychiadau ne restrwyd yma. Danfonwch nhw fewn atom ac fe gawn restr arall mis nesaf efallai.



Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru



# JÔC FACH (NEU DDWY) I GADW CHI'N HAPUS



Mae gŵr a gwraig yn byw drws nesaf i mi ac ma'r wraig braidd yn fethiedig. Un diwrnod mi glywais y gŵr yn canu Penblwydd Hapus. Felly gan deimlo'n garedig wnes i goginio cacen hyfryd iddynt. Pan ddaeth y gŵr i'r drws roedd yn methu deall pan wnes i ddymuno Penblwydd Hapus i'w wraig. " O Na! dydy hi ddim yn cael ei phenblwydd heddiw" meddai "Golchi nwylo oeddwn i"!

Dai yn dod adref o'r coleg a chariad newydd gydag e i'w rieni gyfarfod a hi. Y tad ddim ishe fe i briodi hi, ac yn dawel bach yn dweud wrth y mab "Mae yn hanner chwaer i ti". Ymhen rhyw chewch mis Dai yn dod adref eto a merch neis iawn i gyfarfod ei reini. Y tad unwaith eto ddim eisiau iddo briodi hi- "mae'n hanner chwaer i ti". Dai yn gofyn i'w fam yn y diwedd beth allai wneud. "Paid gwrando dim arno, dim fe yw dy dad di"!!

TRANNON
TREE SERVICES



- TRWYDDED NPTC
- Yswiriant Llawn Cyfrifoldeb Cyhoeddus a Phroffesiynol
- Difrod Stormydd
- Cynnal a Chadw Llwybrau
- Gwasanaeth Malu Coed a thrafodwr ar lôg
- Pob math o ffensio A Chynllunio Tirwedd

Gwnawn bob math o waith coed yn broffesiynol am bris cystadleuol

MORRIS JONES
24 Hour Service
Tel/Fax: 01686 430516
Mobile: 07833 345522
morris.jones@farming.co.uk

Rees Astley

Broceriaid Yswiriant a Chynghorwyr Ariannol Annibynnol

**Am eich holl anghenion ariannol, o yswiriant busnes i fuddsoddiadau.**

Tŷ Mostyn,
4 Stryd y Farchnad,
Y Drenewydd,
Powys SY16 2PQ

Ffôn – 01686 626616
Ffacs – 01686 628457
e-bost - newtown@reesastley.co.uk

www.reesastley.co.uk

Swyddfeydd hefyd yn Aberystwyth a'r Amwythig

BIBA



Y bobl allan ar y stryd yn clapio



Y teulu i gyd allan yn gwerthfawrogi gwaith yr GIG/NHS






Craig Duggan o'r BBC yn gofyn barn Delma ar ôl recordio yn Llys Rhufain












Carl Lewis un o'r trigolion yn canmol y cydweithredu anhygoel yn y pentref




Yr ifanc yn chwifio ei baner gwaith llaw fel cefnogaeth i'r gweithwyr

# Cymdeithas Edward Llwyd

**Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru**

Elusen Gofrestredig rhif 1126027



## Y BARCUT COCH

Wel, mi oedd bach o grafu pen y tro yma, roedd gen i bethau i ddweud ond angen llun i fynd efo'r erthygl. Fel mae'n digwydd yn aml ddoth y syniad pan o'n i'n mwynhau paned o goffi a darllen erthygl am sut i dynnu lluniau o adar yn hedfan.
Dydw i ddim wedi gwneud llawer o hynny o'r blaen, wedi bod yn ddigon hapus i dynnu lluniau o'r tirlun. Mi wnes i dreulio gweddill y diwrnod yn astudio a gosod y camera yn iawn.

Roedd y diwrnod wedyn yn mynd i fod yn sych a phenderfynais fynd i Landdeusant ble maen nhw yn bwydo'r barcut coch. Yn union yn ôl fy arfer ro'n i'n rhy gynnar ond treuliais dri chwarter awr yn mwynhau tawelwch yr ardal.

Doth yr amser a rhois dair punt am fy lle yn y guddfan a gwneud yn siŵr unwaith eto bod y camera wedi cael ei osod yn iawn.

Roedd y barcutiaid yn uchel yn yr awyr a'r brain yn eistedd yn y coed, maen nhw i gyd yn gwybod pryd mae amser cinio. Mi wnaeth pethau ddigwydd yn gyflym unwaith ddoth y dyn efo'i bwced o gig, yn sydyn roedd cwmwl ffyrnig o farcutiaid yn ymladd am y bwyd ac yn troi yma ac acw i osgoi ei gilydd, doedd dim un damwain!

Cymerodd dipyn o amser i mi ddod i arfer â dilyn aderyn yn hedfan mor gyflym, a phob eiliad ro'n i'n pwyso'r botwm roedd deg llun yn cael eu tynnu. Erbyn y diwedd roedd 368 o luniau ar y cerdyn, rhan fwyaf roeddwn i'n gallu taflu a dwsin i gadw. Dyma oedd y gorau.


Popeth drosodd mewn llai na hanner awr ond ces i hwyl.

Yma yng Nghymru roedd yr ymdrech cyntaf i achub y barcut, yn y 1930au dim ond 20 ohonyn nhw oedd ar ôl ond gyda dyfalbarhad maen nhw dros Gymru i gyd erbyn hyn.

Mae rhai o'n hadar ni wedi cael e allforio i Iwerddon felly allech chi weld barcutiaid yn ardal mynyddoedd Wicklow.
Os oes gennych chi siawns i weld y barcutiaid yn cael eu bwydo peidiwch â cholli'r cyfle ond ar eich tro cyntaf peidiwch â mynd â'ch camera, Mwynhewch gyda'ch llygaid! Dewch efo ni i fwynhau ein cefn gwlad, edrychwch ar ein gwefan cymdeithasedwardllwyd. cymru i weld os ydan ni'n cerdded yn eich ardal yr wythnos yma. Bydd croeso mawr i chi!

Derbyniwyd yr erthygl hon cyn ynysu ddod fewn yn ein gwlad.

Rob Evans



# SYMUD TŶ

O’r Drenewydd i bentref Rhiwbeina, Caerdydd



Mae symud tŷ yn un o’r profidau mwyaf anodd mewn bywyd ac mae’n achosi pryder a cholli cwsg. ‘Roedd 2019 yn amser perffaith i ni symud i dŷ llai ac yn nes at ein plant yn ardal Caerdydd. ‘Roedd yn dasg enfawr. Dechreusom ar wagu yr atig ac fe gafwyd sawl trip i Potters a siopau elusen. Roeddem wedi cadw popeth ac roedd yna deimladau cymysg wrth daflu cymaint. Gwerthwyd Tegfryn yn hynod o gyflym a buom yn lwcus iawn i brynu byngalo yn Rhiwbeina. ‘Roeddem yn symud o dŷ mawr 5 llofft i fyngalo cymharol fach ac felly roedd yn rhaid gwerthu llawer o’n dodrefn mawr a rhannu llestri ac ornaments. Roedd yna focsys ymhobman a rhestri yn cael eu gwneud pob bore.

Wrth adael Tegfryn ‘roedd gennym deimladau cymysg iawn, mae ein gwreiddiau yn ddwfn ym Maldwyn a chymaint o atgofion a phrofiadau hapus a gwerthfawr yma.

‘Rydym wedi ymgartrefu’n hapus yn ein cartref newydd ac rydym yn mwynhau amrywiaeth eang o brofiadau a digwyddiadau. ’Rydym yn mwynhau cyngherddau clasurol, clwb yoga, Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina a ciniawau Clwb Cymry Caerdydd efo siaradwyr nodedig megis Emyr Jones-Parry.



Erbyn hyn mae popeth ar stop oherwydd y feirws Corona ac rydym wedi hunan ynysu ac yn dibynnu ar Tesco a Morrisons i ddod â bwyd i ni. Rydym yn gwneud ffrindiau newydd ac maent yn arian ond mae ein ffrindiau yn ardal y Seren yn para yn AUR.

# Cwis enwau llefydd ym Maldwyn mewn emojis

menteriaith MALDWYN






ATEBION MIS NESAF!

## LANSIO LLINELL GYMORTH ARIANNOL

Mae llinell ffôn newydd sy'n cynnig cymorth ariannol wedi'i lansio gan Gyngor Sir Powys.

Wedi'i sefydlu mewn ymateb i coronafeirws, bydd y llinell bwrpasol yn helpu trigolion lleol a busnesau gydag ystod eang o ymholiadau ariannol.

O ddydd Gwener 27 Mawrth, bydd y llinell ffôn ar agor bob diwrnod o'r wythnos o 9am tan 4pm.

Dywedodd y Cynghorydd Aled Davies, Aelod Cabinet ar faterion Ariannol: "Rwy'n gwybod bod llawer o bobl yn poeni am arian ar hyn o bryd, ac mae ein neges yn glir, rydyn ni yma i helpu.

"Bydd y llinell ffôn newydd hon yn darparu'r math o gymorth a chyngor sydd ei angen yn fawr yn ystod y cyfnod heriol ac ansicr hwn.

"Bydd yr opsiynau cymorth hefyd ar gael ar wefan y Cyngor a byddant yn cael eu diweddaru'n gyson, ond rydym yn gwerthfawrogi weithiau ei fod yn gysur i siarad â pherson arall dros y ffôn.

"Rwy'n gobeithio'n fawr y bydd yn dod â help a chysur i'r rhai sy'n teimlo'n unig, neu sydd heb fynediad i'r rhyngrwyd, felly helpwch ni i rannu'r rhif hwn gyda nhw.
“Pan fydd rhywun yn ffonio'r rhif, bydd aelod o’r tîm sydd wedi’i hyfforddi, yn gwrando ar eu pryderon ac yn trafod pa help sydd fwyaf addas i anghenion yr unigolyn hwnnw.

"Gallai hyn gynnwys cynlluniau amrywiol i gefnogi busnesau a gweithwyr, yn ogystal â ffyrdd o reoli biliau ardrethi busnes.

"Gallwn hefyd roi cyngor ar sut i leihau biliau treth y cyngor, trafod amrywiaeth o fudd-daliadau a grantiau, yn ogystal â helpu gyda rheoli arian a chyllidebu.

"Bydd y tîm ar ben arall y ffôn yn gwybod pa gymorth sydd ar gael yn eich cymuned ac yn gallu eich cyfeirio i'r cyfeiriad cywir.

"Os yw eich problemau ariannol yn fwy cymhleth, gallwn drefnu amser addas i gysylltu â chi’n gyfrinachol.

"Rydym yn debygol o gael nifer fawr o alwadau, felly byddwn yn ddiolchgar os gallech fod yn amyneddgar wrth i’r tîm weithio drwy’r holl alwadau.

"Mae'n hanfodol bod pobl yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt ac yn eu cefnogi ar hyn o bryd, felly beth bynnag sydd ei angen arnoch, byddwn yn gwneud ein gorau i helpu"

**Gallwch ffonio'r llinell ffôn newydd ar 01597 826345** neu ymweld â gwefan y cyngor am gymorth
I gael y wybodaeth ddiweddaraf am coronafirws (COVID-19) gan y cyngor, ewch i www.powys.gov.uk/coronavirus









## TORRI RECORD ENWEBIADAU SEREMONI WOBRWYO MUDIAD MEITHRIN

Mae Mudiad Meithrin yn falch iawn o gyhoeddi y derbyniwyd y nifer mwyaf erioed o enwebiadau ar gyfer Seremoni Wobrwyo flynyddol Mudiad Meithrin eleni ers ei sefydlu.

Torrwyd pob record o ran niferoedd gan i dros 450 o enwebiadau gael eu cyflwyno ar gyfer deg categori; Ardal Tu Allan, Gwirfoddolwr, Arweinydd, Cylch Ti a Fi, Cynhwysiant, Cynorthwy-ydd, Dewin a Doti, Meithrinfa Ddydd, Cylch Meithrin a Phwyllgor.

Mae ychydig o newid i'r drefn o ddyfarnu'r enillwyr i'r categori Cylch Meithrin eleni gan y bydd tri uchaf yn cael eu dewis o bob 4 talaith gydag enillydd ym mhob talaith ac yna bydd un o'r enillwyr yma'n cael eu dyfarnu'n enillydd cenedlaethol.

Meddai Leanne Marsh, Pennaeth Datblygu Gwasanaethau ac Academi Mudiad Meithrin:

"*Yn ystod blwyddyn mor anodd, mae'n braf cael cyfle i ddathlu'r holl waith sy'n cael ei wneud ar lawr gwlad ac mae'r seremoni wobrwyo'n rhoi cyfle i Mudiad Meithrin gydnabod a diolch i'n staff a'n gwirfoddolwyr sy'n gweithio'n ddiflino er lles plant bach Cymru.*"

Meddai Dr Gwenllïan Lansdown Davies, Prif Weithredwr Mudiad Meithrin:


"*Mewn cyfnod mor heriol, mae'n braf rhannu newyddion da a nodi fod cynifer wedi manteisio ar y cyfle i enwebu cylch lleol neu feithrinfa. Rydym wedi gwirioni fel mudiad ein bod wedi derbyn cannoedd o enwebiadau!*

*Beth bynnag arall sy'n mynd ymlaen o'n cwmpas, mae'n ffordd hyfryd i staff a gwirfoddolwyr gael eu cydnabod trwy gael eu henwebu gan rieni'r plant sy'n eu gofal.*"

Yn dilyn llwyddiant ysgubol y seremoni hon dros y bedair mlynedd ddiwethaf mae'r Mudiad yn edrych ymlaen at gynnal y Seremoni Wobrwyo yn y Theatr y Werin, Aberystwyth ar 17eg o Hydref eleni.


Cyn hynny bydd y panel dyfarnu'n trafod y ceisiadau yn ddigidol dros yr wythnosau nesaf cyn cyhoeddi rhestr fer ar gyfer pob categori yn fuan.

















Gobeithio eich bod wedi mwynhau darllen y storiau yma. Maen nhw gyd yn wahanol ac o'r galon.

Wel! bu'r ymateb yn anhygoel am erthyglau a storiau oddi wrthoch. Diolch yn fawr iawn i bob un wnaeth ddanfon atom. Dwi'n siwr fod mwy ohonoch bron yn barod i ddanfon erthygl, stori, pos bach, cerdd, llun, jôc fach neu unrhyw beth o'ch dewis chi. Dyma eich cyfle ewch ati danfonwch nhw ataf i delmac.thomas@hotmail.com

Eto diolch yn fawr iawn i chi gyd.

## Edrychwch ar ôl eich hunain.
## Daliwch ati, fe ddaw diwedd i'r ynysu cyn bo hir!










Nid yw Golygyddion na Phwyllgor Seren Hafren o anghenraid yn cytuno gydag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Gol.